

Adroddiad Gwerthuso Diwedd Blwyddyn 2 y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
Cyflwyniad	2
Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn dangos arwyddion cynnar o effaith gadarnhaol	2
Er mwyn cael mwy o effaith, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr egluro ei phwrpas, ei nodau a'i model cyflawni wrth dimau mewnol Gwasanaeth Erlyn y Goron a'i bartneriaid allanol	4
Argymhellion	4
Cyflwyniad	7
Mesur llwyddiant	7
Trosolwg ar y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr	9
Dulliau gwerthuso	10
Canfyddiadau'r gwerthusiad	13
Pennod 1: Profiadau dioddefwyr	13
Darparu profiad o ansawdd uchel	14
Meithrin ymddiriedaeth a hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron	21
Gwella Lles Dioddefwyr	26
Lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr	28
Pennod 2: Rhoi'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ar waith	31
Diweddarau'r canllawiau a'r hyfforddiant	31
Addasiadau i'r ffordd caiff y gwasanaeth ei weithredu	33
Diwallu anghenion hygyrchedd dioddefwyr	35
Cydlynw gyda'r partneriaid	35
Rheoli'r galw	38
Pennod 3: Effaith y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr	41
Blaenoriaethu profiad dioddefwyr	41
Gwella hynt achosion ac effeithlonrwydd sefydliadol	42
Gwella'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr	50
Pennod 4: Gwerth am arian y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr	54
Casgliad	59
Argymhellion	61
Atodiad - Dadansoddiad Cost a Budd o'r rhaglen lawn	63
Rhestr o dermau a byrfodau	66

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi comisiynu Crest Advisory i werthuso'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr (a elwir hefyd yn Rhaglen i Ddioddefwyr). Cynllun gan Wasanaeth Erlyn y Goron ydy'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr; ei nod ydy gwella profiadau dioddefwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron a chyfrannu at roi gwell profiad yn gyffredinol o'r system cyfiawnder troseddol. Mae gan y Rhaglen dri gwasanaeth craidd sy'n cael eu defnyddio yn ôl anghenion y dioddefwyr: Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol; y Gwasanaeth Ychwanegol ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol (RASSO) o hyn ymlaen, y Gwasanaeth Ychwanegol [RASSO]); a'r Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr.

Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Chwefror 2026, gwerthusodd Crest weithrediad, effaith a gwerth am arian y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr. Mae'r adroddiad cryno hwn yn nodi canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad mewn perthynas â chanlyniadau allweddol y Rhaglen: gwella profiadau dioddefwyr; lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr; a gwella effeithlonrwydd yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae manylion y dulliau ar gael yn yr Adroddiad Technegol, ac mae dadansoddiad llawn o gostau a buddion y rhaglen ar gael yn Atodiad A. Mae'r Adroddiad Technegol ac Atodiad A ar gael ar wefan Crest Advisory. Ceir [rhestr](#) o'r byrfodau a'r acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar y dudalen olaf.

Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn dangos arwyddion cynnar o effaith gadarnhaol

Canfu'r gwerthusiad fod y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau'r rhan fwyaf o ddioddefwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron, y gallai effeithio ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr, a'i bod yn esgor ar fuddion ariannol drwy wella lles dioddefwyr. Canfu'r gwerthusiad hefyd fod yr addasiadau arloesol a wnaed i'r dull o ddarparu gwasanaethau fel rhan o'r rhaglen wedi ein helpu i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithlon.

Pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn darparu gwasanaethau'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn dda, mae'n cael effaith gadarnhaol ar ddioddefwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn gyson eto, sy'n golygu nad yw pob dioddefwr yn elwa.

Mae'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr sydd wedi cael un o'r gwasanaethau o dan y Rhaglen wedi cael gwasanaeth o ansawdd uchel gan Wasanaeth Erlyn y Goron; mae hyn yn un o ganlyniadau allweddol y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr. Mae hyn wedi cael ei alluogi drwy wella templedi llythyrau, drwy roi hyfforddiant effeithiol i staff Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac ehangu rôl Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron i roi diweddariadau clir ac amserol i ddioddefwyr. O dan y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr, mae dioddefwyr yn gwerthfawrogi cyfathrebu cynnar a rhagweithiol gan Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniadau, diweddariadau, ac oedi gydag achosion. Canfu'r gwerthusiad fod Gwasanaeth Erlyn y Goron, drwy ddangos gofal ac empathi wrth gyfathrebu, wedi gallu cynnal ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr - hyd yn oed pan fo'r

diweddariadau'n ymwneud â datblygiadau digroeso mewn achos, fel penderfyniad i beidio â chymryd 'dim camau pellach'. Er enghraifft, mewn arolwg a ddioddefwyr a dderbyniodd wasanaethau y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr, cytunodd 92% (n=124) fod cyfathrebu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn glir ac yn gryno, a chytunodd 84% (n=122) ei fod yn empathig. Yn gyffredinol, teimlai'r rhan fwyaf o ddioddefwyr fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu trin yn deg a chyda pharch, a bod hynny'n lleihau'u pryder ac yn gwella'u lles. I rai dioddefwyr, roedd y profiad hwn wedi eu helpu i barhau â'r broses.

Roedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr wedi cael negeseuon empathig gan staff Gwasanaeth Erlyn y Goron, ond roedd rhai'n teimlo nad oedd elfennau eraill o wasanaethau'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, wedi cael eu darparu gydag empathi ac y gallent fod yn fwy ystyriol o'u trawma. Roedd gan y rhan fwyaf o'r dioddefwyr fwy o ymddiriedaeth a hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron ar ôl mynychu'r cyfarfodydd cyn-treial a gynigir i oedolion sydd wedi dioddef trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol. Fodd bynnag, roedd rhai dioddefwyr yn siomedig pan na fodlonwyd eu disgwyliadau ynghylch pwrpas y cyfarfod, neu roeddent yn teimlo nad oedd staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyfathrebu'n effeithiol. Mae angen i Wasanaeth Erlyn y Goron wneud rhagor o waith i sicrhau bod pob dioddefwr yn cael gwasanaeth cyson o ansawdd uchel sy'n glir, yn empathig, ac sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Pan ddaw'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn fwy sefydledig a phan ddaw i gael ei darparu'n fwy cyson, disgwyliwn y daw ei gallu i leihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr yn fwy i'r amlwg.

Mae'r Theori Newid (gweler tudalen 8) a luniwyd gennym i gefnogi'r Rhaglen yn amlinellu sut fyddai gwella profiad dioddefwyr yn gallu arwain at fod mwy o ddioddefwyr yn peidio â thynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol. Mae arwyddion cynnar y dull modelu ystadegol yn awgrymu bod Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, sy'n helpu oedolion sy'n ddioddefwyr troseddau, yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr, er mai effaith fach yw hon. Fodd bynnag, nid oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i fod yn hyderus ynglŷn â hyn oherwydd bod y data sydd ar gael yn deillio o lai na 12 mis a dim ond ar ôl i achosion gael eu cwblhau y gellir eu cynnwys.

Nid yw'n bosibl inni eto wneud asesiad cadarn o effaith Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, sy'n helpu oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), gan fod yr achosion hyn yn aml yn cymryd misoedd lawer neu hyd yn oed flynyddoedd i'w cwblhau, sy'n golygu nad oes digon o ddata ar gael. Serch hynny, mae timau darparu'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr a rhai rhanddeiliaid allanol yn credu bod gan y Rhaglen y potensial i helpu dioddefwyr i barhau â'r broses cyfiawnder troseddol.

Nes bydd mwy o ddioddefwyr yn cael y gwasanaeth llawn, ansoddol yw'r mesurau effaith i raddau helaeth. Ar sail ein canfyddiadau ar draws y broses werthuso, rydym yn disgwyl gweld mwy o dystiolaeth yn dod i'r amlwg o allu'r Rhaglen i leihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr.

Gallwn ddweud gyda chryn hyder fod budd y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn ein hasesiad yn fwy na chost y Rhaglen, er gwaethaf yr ansicrwydd yn ein data.

Mae'r Rhaglen yn creu buddion drwy wella lles dioddefwyr, drwy leihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol, a drwy greu arbedion effeithlonrwydd i'r sefydliad. Mae hyn yn golygu bod y buddion y mae'r Rhaglen yn eu darparu yn fwy na'r costau. Ar ôl profi'r hyder yn ein canlyniadau, canfuom fod y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn cynhyrchu amcangyfrif o rhwng £7.1 a £12.7 o fuddion am bob £1 sy'n cael ei gwario, er mai budd cymdeithasol yw hyn yn bennaf ac nid arbediad ariannol i Wasanaeth Erlyn y Goron. Hyd yn oed wrth fwrw cyfrif o ansicrwydd, mae gwerth y buddion yn y dadansoddiad hwn yn fwy na chost y Rhaglen, gan ddangos gwerth cadarnhaol am arian.

Er mwyn cael mwy o effaith, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr egluro ei phwrrpas, ei nodau a'i model cyflawni wrth dimau mewnol Gwasanaeth Erlyn y Goron a'i bartneriaid allanol

Mae ein gwerthusiad yn awgrymu bod llwyddiant y Rhaglen yn cael ei gyfyngu gan ddau ffactor ar hyn o bryd. Yn gyntaf, mae'r Rhaglen wedi creu rolau, cyfrifoldebau a ffyrdd newydd o weithio i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae treialu'r gwasanaeth newydd hwn wedi arwain at ddiwylliant 'profi a dysgu' ac wedi galluogi addasiadau cadarnhaol i gael eu gwneud i'r model darparu, ond mae hefyd wedi arwain at anghysondebau yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu ar draws timau ac ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron. Er bod rhywfaint o amrywiaeth rhanbarthol yn y gwasanaethau a ddarperir yn cael ei annog i adlewyrchu'r anghenion a'r galw'n lleol, mae'n hanfodol nad yw'r amrywiaeth hwn yn arwain at 'loteri cod post' i ddioddefwyr o ran ansawdd y cyfathrebu a'r gefnogaeth a gânt gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Yn ail, mae cyflawni'r Rhaglen yn llwyddiannus yn dibynnu ar fod holl staff Gwasanaeth Erlyn y Goron, gan gynnwys yr ymarferwyr cyfreithiol, a'r partneriaid ehangach ar draws gwasanaethau i ddioddefwyr a phlisma, yn deall ac yn hyrwyddo pwrrpas a nodau'r rhaglen. Ar hyn o bryd, cymysg yw'r hyder a'r eglurder ynghylch nodau a dull darparu'r rhaglen ymysg staff a phartneriaid Gwasanaeth Erlyn y Goron gall hyn olygu bod dioddefwyr yn cael gwasanaeth anghyson, neu na chânt gefnogaeth gydlynol gan y gweithwyr proffesiynol o'u cwrdd.

Wrth i'r rhaglen ehangu a chyfnerthu ei model darparu, rhaid i Wasanaeth Erlyn y Goron roi blaenoriaeth i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â'i staff a'i bartneriaid ynghylch pwrrpas a buddion y rhaglen, er mwyn sicrhau bod pob dioddefwr yn cael profiad cyffredinol a gwasanaeth cyson o ansawdd uchel o'r System Cyfiawnder Troseddol.

Argymhellion

Ar sail canfyddiadau'r gwerthusiad, rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer y Rhaglen i helpu i'w gwneud yn fwy effeithlon ac i sicrhau canlyniadau gwell.

Cyf.	Argymhellion
ARG 1	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu'r deunyddiau canllaw a'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer paratoi a drafftio gohebiaeth i ddioddefwyr, gan ganolbwyntio ar feysydd y mae'n hysbys bod lle i'w gwneud yn fwy eglur (e.e. esboniadau clir o jargon cyfreithiol).

ARG 2	Dylai Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr esbonio'n glir wrth ddioddefwyr beth yw pwrpas cyfarfodydd cyn-treial cyn iddynt fynychu er mwyn helpu i reoli eu disgwyliadau ynghylch pa bynciau y gellir eu trafod, ac i helpu dioddefwyr i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn a gwneud y gorau ohonynt.
ARG 3	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr annog y timau darparu i gynhyrchu dogfennau cyfeirio sy'n benodol i ardal sy'n catalogio gwasanaethau cymorth lleol er mwyn paratoi staff yn well i roi i ddioddefwyr gymorth sy'n benodol i ardal.
ARG 4	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr barhau i adolygu a diwedddaru hyfforddiant staff yn aml er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion dioddefwyr.
ARG 5	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddefnyddio'r adborth gan ddioddefwyr yn yr adroddiad hwn i ddiwedddaru'r canllawiau a'r hyfforddiant i staff sy'n delio â dioddefwyr (gan gynnwys cyfreithwyr) ar sut beth yw arfer da mewn cyfathrebu clir ac empathig. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith parhaus i roi lle canolog i leisiau dioddefwyr mewn deunyddiau dysgu i staff.
ARG 6	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddiwedddaru'r canllawiau i staff sy'n drafftio gohebiaeth â dioddefwyr, fel bod y staff yn adolygu llythyrau i sicrhau bod y brawddegau'n glir, yn ddealladwy, yn ramadegol gywir, ac yn cynnwys gwybodaeth gywir am y dioddefwr a'r achos.
ARG 7	Dylai arweinwyr y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddal i wreiddio a hyrwyddo'r diwylliant 'profi a dysgu' ar draws y gwaith o gyflawni'r rhaglen er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd a data o well ansawdd.
ARG 8	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu'r prosesau er mwyn darparu ar gyfer amrywiol ofynion hygyrchedd dioddefwyr gan fynegi'r rhain yn glir wrth y timau sy'n darparu'r Rhaglen.
ARG 9	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr gyfleu pwrpas a gwerth y Rhaglen yn glir wrth bartneriaid yn yr heddlu a gwasanaethau i ddioddefwyr er mwyn sicrhau eu hymrwymiad, gan hwyluso cyfathrebu a chydlynu cadarn.
ARG 10	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu negeseuon i bartneriaid am bwrpas cyfarfodydd cyn treial a rôl ddisgwyliedig y partneriaid mewn cyfarfodydd. Dylid mynegi hyn wrth yr heddluoedd a'r gwasanaethau lleol ar lefel strategol, yn ogystal ag yn uniongyrchol wrth ymarferwyr rheng flaen pan drefnir cyfarfodydd.
ARG 11	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr weithio'n agos gydag arweinwyr yr heddlu i sicrhau bod y wybodaeth y mae ar Wasanaeth Eryl y Goron ei hangen yn cael ei diffinio'n glir, ac i egluro a chytuno ar sut mae data'n cael ei gofnodi a'i rannu.
ARG 12	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr geisio deall y rhesymau pam y gofynnir am nifer o gyfarfodydd cyn-treial, ac a yw hyn oherwydd bod gan ddioddefwyr gwestiynau gwahanol ar wahanol gamau, oherwydd newidiadau yn amseroedd

	aros yr achos neu'r treial, neu oherwydd na chafodd gwybodaeth ei hegluro'n glir mewn cyfarfodydd cynharach.
ARG 13	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr gydgyssylltu â Gofal i Dystion i adolygu pa wybodaeth a diweddariadau y mae dioddefwyr yn eu cael am yr achos yn dilyn y penderfyniad ynghylch cyhuddo a chyn y treial er mwyn llywio'r canllawiau ar ba bryd y mae diweddariadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn fwyaf buddiol i ddioddefwyr.
ARG 14	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr sicrhau bod Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn y canllawiau ar gynnig cyfarfodydd cyn-treial drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion a dewisiadau dioddefwyr o ran amser a lleoliad y cyfarfodydd. Dylai'r Rhaglen ystyried a oes angen capasiti ychwanegol ar Ardaloedd i gynnal y cyfarfodydd hyn yn unol ag anghenion dioddefwyr.
ARG 15	Dylai uwch reolwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron gryfhau'r ffordd maent yn mynegi pwysigrwydd rôl Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i gyfathrebu a rhoi cefnogaeth o ansawdd uchel i ddioddefwyr a chyflawni blaenoriaethau'r sefydliad gan fod rhai staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi na'u cydnabod.
ARG 16	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr egluro priod rolau a disgwyliadau Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ac erlynwyr i ddrafftio a sicrhau ansawdd llythyrau Cysylltu a Chyfathrebu â Dioddefwyr, gan ganolbwyntio ar ble gall pob rôl ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Cyflwyniad

Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi lansio'r Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr ym mis Gorffennaf 2022 i ymateb i ymchwil a gomisiynwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron (2021-2022)¹ i ddeall anghenion cymorth a chyfathrebu diodefwyr. Cynhaliwyd yr ymchwil hwn yn dilyn arolygiad Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi yn 2018 a welodd fod angen i Wasanaeth Erlyn y Goron wella prydlondeb ac ansawdd ei ddull o gyfathrebu â diodefwyr. Bwriadwyd i'r Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr ymateb i dystiolaeth, gan gynnwys adborth uniongyrchol gan ddiodefwyr, ynghylch sut gallai Gwasanaeth Erlyn y Goron ddiwallu anghenion diodefwyr yn well wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Cafodd y Rhaglen ei chreu ar y cyd â rhannau eraill o'r System Cyfiawnder Troseddol, fel yr heddlu a'u Hunedau Gofal i Dystion.² Ei nod yw gwella profiadau diodefwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron a chyfrannu at well profiad cyffredinol o'r system cyfiawnder troseddol i ddiodefwyr.

Ffigur 1: Datblygiad y Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr



Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Chwefror 2026, gwerthusodd Crest Advisory weithrediad, effaith a gwerth am arian y Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr. Mae'r adroddiad cryno hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r gwerthusiad mewn perthynas â'r canlyniadau allweddol ar gyfer y rhaglen: gwella profiadau diodefwyr; lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg diodefwyr; a gwella effeithlonrwydd yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron.


Mesur llwyddiant

Er mwyn profi sut bydd y Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr yn llwyddo, bu Crest yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron i greu ar gyfer y rhaglen Theori Newid sy'n mynegi'n glir sut disgwylir i'r canlyniadau tymor byr arwain at effaith hirdymor.

¹ [A victims' strategic needs assessment for the Crown Prosecution Service](#) (2022), Crest Advisory.

² Cynhaliwyd gweithdai gyda phob heddlu ac Uned Gofal i Dystion ochr yn ochr â threfniant cydweithredu cenedlaethol gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).

Ffigur 2: Theori Newid ar lefel y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr



Ar lefel y rhaglen, mae'r holl wasanaethau yn anelu at gyflawni'r un canlyniadau tymor hir sy'n perthyn i dri chategori:

- **Gwella profiadau dioddefwyr:** Mae Gwasanaeth Erllyn y Goron wedi ymrwymo i wella ansawdd y cyfathrebu â dioddefwyr ac i gefnogi staff yn y broses hon. Yn y gwerthusiad hwn, mae profiad o ansawdd uchel yn cael ei ddiffinio fel gwasanaeth proffesiynol, gyda chyfathrebu clir ac empathig sy'n ystyriol o drawma ac sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau amrywiol.
- **Lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr:** Drwy wella profiad dioddefwyr, nod y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yw lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr a chefnogi dioddefwyr i barhau â'r broses gyfreithiol drwy ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n ystyriol o drawma ac sy'n darparu diweddariadau rhagweithiol, cymorth wedi'i deilwra, a chyfathrebu cyson. Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr hefyd yn ceisio sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i wneud y penderfyniad gorau drostynt eu hunain. I rai dioddefwyr, mae hyn yn golygu sylweddoli'n fuan mai tynnu'n ôl o'r broses yw'r dewis gorau. Yn yr achosion hyn, ceir budd eilaidd i Wasanaeth Erllyn y Goron sef y byddai'r adnoddau a fyddai wedi cael eu defnyddio i fwrw ymlaen â'r achos yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ar gyfer achos arall.
- **Gwella effeithlonrwydd yng Ngwasanaeth Erllyn y Goron:** Drwy symleiddio prosesau, lleihau oedi, a gwella'r cydgysylltiad rhwng asiantaethau, nod y Rhaglen yw helpu i leihau unrhyw amser anghynhyrchiol a chynyddu'r capasiti. Mae hyn yn caniatáu i staff ganolbwyntio adnoddau ar ddatblygu achosion gweithredol, gwella canlyniadau, a sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth amserol ac effeithiol. Mae mwy o effeithlonrwydd ar draws Gwasanaeth Erllyn y Goron a'i asiantaethau partner hefyd yn lleihau oedi yn y broses cyfiawnder troseddol, gan wella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Yn gyffredinol, mae'r gwelliannau hyn yn galluogi Gwasanaeth Erllyn y Goron i ymateb i unrhyw ofynion sy'n datblygu ac i gynnal gwasanaeth o

ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, gan llynu'n agos wrth ei amcanion strategol ehangach ar yr un pryd.

Trosolwg ar y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr

Mae gan y Rhaglen dri gwasanaeth craidd sy'n cael eu defnyddio'n ôl anghenion y dioddefwyr: Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol; y Gwasanaeth Ychwanegol ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol (RASSO); a'r Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr.

Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol

Mae Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn cyflwyno pwynt cyswllt newydd rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a dioddefwyr: y penderfyniad ynghylch cyhuddo. Mae hyn yn golygu bod swyddogion cyswllt dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cysylltu â'r dioddefwyr yn uniongyrchol drwy'r dull cysylltu sydd orau gan y dioddefwr (ffôn, e-bost neu lythyr) i roi gwybod iddynt am y penderfyniad ynghylch cyhuddo. Mae hyn yn cynnwys pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyhuddo'r achos, yn ogystal â phan na fydd 'dim camau pellach' yn cael eu cymryd i fwrw'r achos ymlaen. Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr hefyd yn ymateb i ymholiadau dioddefwyr drwy roi iddynt ragor o wybodaeth neu'n eu cyfeirio at wasanaethau eraill. Ochr yn ochr â hyn, mae Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn anfon llythyrau cysylltu a chyfathrebu at ddioddefwyr, gan roi gwybod i ddioddefwyr am unrhyw newidiadau ym mhenderfyniadau cyhuddo Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn cynnig cymorth a chyfathrebu ychwanegol i ddioddefwyr ar ôl y gwrandawriad cyntaf a chyn y treial.

Tabl 1: Trosolwg ar Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol

Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol
• Cafodd ei lansio ym mis Ebrill 2023 ac roedd yn gwbl weithredol erbyn mis Rhagfyr 2024 • Yn cael ei ddarparu gan dîm canolog, sy'n cwmpasu Mersi-Swydd Gaer, a Swydd Efrog a Glannau Humber • Caiff ei gynnig i bob oedolyn sy'n ddioddefwr trosedd.	• Cafodd ei lansio ym mis Ionawr 2025 ac roedd yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2025 • Yn cael ei ddarparu gan dimau rhanbarthol Gwasanaeth Erlyn y Goron, sy'n cynnwys Mersi-Swydd Gaer, Swydd Efrog a Glannau Humber, Wessex, a Llundain • Caiff ei gynnig i oedolion sy'n dioddef cam-drin domestig.

Y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)

Dechreuwyd cyflwyno'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn genedlaethol ym mis Awst 2024 ac roedd yn fyw ar draws holl ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron o fis Tachwedd 2024 ymlaen. Cynigir y gwasanaeth i oedolion sy'n dioddef trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol ac mae'n cael ei ddarparu gan dimau rhanbarthol Gwasanaeth Erlyn y Goron ar draws Cymru a Lloegr.

Mae'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn rhoi Swyddog Cyswllt Dioddefwyr penodol i ddioddefwyr, sy'n gweithredu fel un pwynt cyswllt ar eu cyfer yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron. Mae Swyddog Cyswllt Dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cysylltu â dioddefwyr ar adeg cyhuddo ac yn ymateb i ymholiadau dioddefwyr drwy roi iddynt wybodaeth a'u cyfeirio at wasanaethau eraill lle bo hynny'n berthnasol. Os bydd y diffynnydd mewn achos yn pledio'n 'ddieuog', cynigir cyfarfod cyn-treial i ddioddefwyr gyda thîm yr erlyniad os bydd yr achos yn mynd ymlaen i dreial. Pwrpas y cyfarfod hwn yw rhoi cyfle i ddioddefwyr drafod beth i'w ddisgwyl yn y llys, mynegi unrhyw bryderon, trafod mesurau arbennig, a delio ag unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am y broses. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn anfon llythyrau cysylltu a chyfathrebu at ddioddefwyr.

Canolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr yn dîm canolog sy'n cefnogi ac yn ysgogi cysylltiad o ansawdd uchel â dioddefwyr ar draws y rhaglen a'r sefydliad ehangach. Mae'n hanfodol er mwyn gwella'n barhaus a sicrhau ansawdd y cyfathrebu a'r wybodaeth y mae dioddefwyr yn eu cael. Mae gan y Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr hefyd gylch gwaith ehangach i ddylanwadu ar Wasanaeth Erlyn y Goron i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddioddefwyr drwy wella prosesau, systemau a galluoedd staff. Mae wedi creu amrywiaeth eang o dempledi, canllawiau a hyfforddiant i helpu staff sy'n delio â dioddefwyr i gwblhau eu gwaith yn effeithiol ac yn effeithlon.

Dulliau gwerthuso

Fe wnaethom ddefnyddio dulliau cymysg, gan ymgorffori saith ffynhonnell ddata allweddol. Drwy ein dadansoddiad, rydym wedi triongli data a gwybodaeth i lywio ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Mae dulliau llawn, gan gynnwys cyfyngiadau, ar gael yn yr Adroddiad Technegol.

- **Cyfweliadau â dioddefwyr:** Rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom gynnal 12 cyfweliad â dioddefwyr sy'n oedolion a dderbyniodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).
- **Ffurflenni adborth dioddefwyr:** Fe wnaeth dau ddioddefwr a dderbyniodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) rannu adborth ysgrifenedig drwy ffurflen ar-lein rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2025.
- **Arolygon o ddioddefwyr:** Ar 4 Chwefror 2026, roeddem wedi cael cyfanswm o 107 o ymatebion i arolygon gan ddioddefwyr a dderbyniodd Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Mae pob arolwg yn ymwneud â phwynt cyswllt penodol gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, er enghraifft 'penderfyniad i gyhuddo' neu 'wahoddiad i gyfarfod cyn-treial'. Yn yr adroddiad hwn, mae'r ymatebion i'r arolwg wedi cael eu cyfuno ar draws yr holl wasanaethau a'r pwyntiau cyswllt, gan mai ychydig o ymatebion a gafwyd i'r arolwg³. Sylwch fod 83% (n=89) o gyfanswm yr ymatebion i'r arolwg wedi dod o arolwg Penderfyniad i Gyhuddo Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, sy'n golygu na ellir cyffredinololi'r canfyddiadau i bob gwasanaeth a phwynt cyswllt.
- **Ymgysylltu'n ehangach â dioddefwyr:** Fe wnaethom gynnal grŵp ffocws gyda dioddefwyr nad oeddent wedi cael yr un o wasanaethau'r Rhaglen er mwyn deall safbwyntiau ehangach ar anghenion a phrofiadau dioddefwyr.
- **Grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid proffesiynol:** Rhwng mis Awst 2024 a mis Tachwedd 2025, fe wnaethom gynnal 35 o grwpiau ffocws a chyfweliadau â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar draws Cymru a Lloegr. Roeddent yn cynnwys:
 - Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a Rheolwyr Cyswllt Dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)
 - Swyddogion paragyfreithiol a chynorthwyywyr Gwasanaeth Erlyn y Goron
 - Twrneiod erlyn Gwasanaeth Erlyn y Goron
 - Swyddogion Gofal i Dystion
 - Swyddogion heddlu cyfrifol; ac
 - Eiriolwyr dioddefwyr, gan gynnwys Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig.
- **Arolygon o staff Gwasanaeth Erlyn y Goron:** Cawsom gyfanswm o 775 o ymatebion ym mis Ionawr 2025 a 631 o ymatebion ym mis Ionawr 2026 i arolwg a anfonwyd at holl staff Gwasanaeth Erlyn y Goron. Roedd yr arolwg yn edrych ar effaith y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ar agweddau ac amgyffredion staff o flaenoriaethau strategol Gwasanaeth Erlyn y Goron a'u rôl eu hunain yn cyflawni'r blaenoriaethau strategol hyn.
- **Cip-sampl o gyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron:** Fe wnaethom ddadansoddi llythrau Cysylltu a chyfathrebu a Dim camau pellach yn ôl y themâu ehangach a gymerwyd o

³ Daw'r ymatebion cyfanredol o saith arolwg: sef arolwg 'Penderfyniad i Gyhuddo', arolwg 'Dim Camau Pellach', ac arolwg 'Cysylltu a Chyfathrebu â Dioddefwyr' Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol; arolwg 'Dim Camau Pellach' ac arolwg 'Penderfyniad i Gyhuddo' Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol; ac arolwg 'Gwahoddiad i gyfarfod cyn trial' a 'Dim Camau Pellach' y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).

ddogfennau Canllawiau Llythyr Templed Gwasanaeth Erlyn y Goron (2024) a ddefnyddiwyd fel meini prawf llwyddiant.

- **Gwybodaeth am weinyddu a rheoli a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron:**
Roedd y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn rhannu'r data o Ap Cyswllt Gwasanaeth Erlyn y Goron a oedd yn ymwneud â'r holl gwynion a'r achosion Hawl dioddefwyr i Adolygiad sydd wedi cael eu cyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron rhwng mis Ebrill 2021 a mis Hydref 2025; data ar lefel achosion sy'n ymwneud â phob achos a gofrestrwyd ar systemau Gwasanaeth Erlyn y Goron ac a arweiniodd at benderfyniad cyn cyhuddo rhwng mis Ebrill 2023 a mis Hydref 2025; data monitro gwasanaethau o Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO); a data costau'r Rhaglen ar gostau staff a chostau nad ydynt yn gostau staff, a chyfrifon / cofnodion gwariant ariannol rhaglenni.

Canfyddiadau'r gwerthusiad

Pennod 1: Profiadau dioddefwyr

Yn 2022, canfu'r Asesiad Strategol o Anghenion Dioddefwyr⁴ y gallai Gwasanaeth Erlyn y Goron wneud mwy i wella profiadau dioddefwyr a gwelwyd anghysondeb annerbyniol yn ansawdd, prydlondeb ac empathi cyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron. Ers hynny, mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr wedi ceisio darparu i ddioddefwyr ddulliau cyfathrebu a chymorth wedi'u teilwra'n arbennig, wedi'u darparu'n amserol, ac i ansawdd uchel yn gyson. Mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaeth strategol Gwasanaeth Erlyn y Goron⁵ i gynyddu ymddiriedaeth yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron drwy roi dioddefwyr wrth galon y System Cyfiawnder Troseddol a sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael gwasanaeth cefnogol.

Mae'r adran hon yn trafod sut mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr wedi effeithio ar brofiadau dioddefwyr, gan gynnwys ansawdd y gwasanaeth y mae dioddefwyr yn ei gael, eu hymddiriedaeth a'u hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu lles. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau o'n dadansoddiad o arolygon ac o'n cyfweiliadau â dioddefwyr. Gan mai ychydig iawn a wnaeth ymateb i'r arolygon o ddioddefwyr a'r nifer cyfyngedig o gyfweiliadau a gynhaliwyd â dioddefwyr, rydym wedi defnyddio dulliau cymysg yn ein dadansoddiad ac wedi triongli'r wybodaeth er mwyn deall effaith y Rhaglen ar brofiadau dioddefwyr.

Y prif ganfyddiadau: Profiadau dioddefwyr

- Gall dull cyfathrebu Gwasanaeth Erlyn y Goron gael effaith sylweddol ar sut mae dioddefwyr yn ymrwymo i'r broses gyfreithiol. Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn bodloni dewisiadau cysylltu'r rhan fwyaf o ddioddefwyr
- Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr o'r farn bod cyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn glir ac yn gryno, ond roedd rhai o'r farn bod y llythyrau'n hir ac yn aneglur
- Mae gwybodaeth glir a hygyrch gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn helpu dioddefwyr i ddeall y penderfyniadau a'r camau nesaf
- Roedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr wedi cael negeseuon empathig gan staff Gwasanaeth Erlyn y Goron, ond roedd rhai'n teimlo nad oedd elfennau eraill o wasanaethau'r Rhaglen, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, yn ystyriol o'u trawma
- Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr a gafodd ohebiaeth gynnar a rhagweithiol drwy'r Rhaglen am benderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron, am ddiweddariadau ac am oedi yn credu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd yr achos o ddifrif
- Mae cyfarfodydd cyn-treial wedi gwella ymddiriedaeth a hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron ymysg y rhan fwyaf o ddioddefwyr a oedd yn eu mynychu, ond cafodd rhai dioddefwyr brofiad negyddol pan na fodlonwyd eu disgwyliadau ynghylch pwrpas y cyfarfodydd
- Mae'r cydgysylltiad amlwg â phartneriaid yn gwella ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron

⁴ [A victims' strategic needs assessment for the Crown Prosecution Service](#) (2022), Crest Advisory.

⁵ [Strategaeth 2030 Gwasanaeth Erlyn y Goron](#), Gwasanaeth Erlyn y Goron

- Teimlai'r rhan fwyaf o ddioddefwyr fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu trin yn deg a chyda pharch, a bod hynny'n lleihau'u pryder ac yn gwella'u lles.
- Mae gwella llesiant dioddefwyr yn arwain at fudd blynyddol o £162.6 miliwn i Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO)
- I rai dioddefwyr - ond nid pob un - roedd cael gwasanaeth o ansawdd uchel gan Wasanaeth Erlyn y Goron wedi eu helpu i barhau â'r achos

Darparu profiad o ansawdd uchel

Dioddefwyr sy'n cael profiad o ansawdd uchel drwy gydol proses Gwasanaeth Erlyn y Goron yw'r canlyniad hirdymor cyntaf sy'n ymwneud â phrofiad dioddefwyr a nodir yn y Theori Newid. Profiad o ansawdd uchel yw pan fydd dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am benderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron, eu bod yn cael eu trin fel unigolion, ac yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi diwallu eu hanghenion.

Y Prif Ganfyddiadau: Gall dull cyfathrebu Gwasanaeth Erlyn y Goron gael effaith sylweddol ar sut mae dioddefwr yn ymrwymo i'r broses gyfreithiol.

Gall Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron gysylltu â dioddefwyr dros y ffôn, drwy e-bost, drwy lythyr neu drwy gyfuniad o'r dulliau hyn. Mae ein cyfweiliadau â dioddefwyr yn dangos y ceir amrywiaeth yn y ffordd y mae pob dioddefwr yn gofyn inni gysylltu â nhw. Teimlai'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr fod y dull cysylltu (h.y. ffôn, e-bost neu lythyr) yn cael effaith ar ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron a pha mor dda y gallent ei phrosesu. Er enghraifft, roedd un dioddefwr yn ffafrio galwadau ffôn dros negeseuon e-bost oherwydd eu bod yn teimlo bod clywed llais y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn gysur. Fodd bynnag, roedd yn well gan rai dioddefwyr ohebiaeth ysgrifenedig dros alwadau ffôn gan fod galwadau heb eu trefnu gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn peri gofid iddynt rhag ofn iddynt golli gwybodaeth bwysig.

"Dwi'n meddwl bod cael mwy ar bapur yn hytrach na dim ond galwadau ar hap [...] Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n croesi fy mysedd braidd ac yn gobeithio fy mod i heb golli galwad." (Dioddefwr)

Roedd yn well gan nifer o ddioddefwyr gael galwadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig gan Wasanaeth Erlyn y Goron, gan y byddai hyn yn eu galluogi i ofyn cwestiynau a chael eglurhad am wybodaeth yn ystod yr alwad, yn ogystal â chadw cofnod o'r wybodaeth.

"Rwy'n meddwl y byddai'n cael ei dderbyn a'i ddeall yn llawer gwell drwy [...] ei anfon mewn llythyr, yna [...] ffonio wedyn i drafod." (Dioddefwr)

Ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, y dull cysylltu yr oedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn ei ffafrio oedd galwadau ffôn (62%, n=2,907) ac yna negeseuon e-bost (15%,

n=696) a llythyrau (9%, n=418).⁶ Mae Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn gallu bodloni dewisiadau cysylltu'r rhan fwyaf o ddioddefwyr, gyda 71% (n=891) o ddioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol⁷ ac 83% (n=423) o ddioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Ychwanegol⁸ a oedd yn ffafrio galwad ffôn, yn cael galwad.

Mae'n bwysig bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dal i ganolbwyntio ar ddeall a glynu wrth hoff ddulliau cyfathrebu dioddefwyr unigol i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, os nad oes gwybodaeth ar gael am hoff ddull cysylltu dioddefwyr (er enghraifft, os nad yw'r heddlu yn gwybod neu'n rhannu'r wybodaeth hon), dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron ddal i roi blaenoriaeth i gyfathrebu â dioddefwyr yn ddiogel ac yn amserol. Cafodd y rhestr gyfeirio Cyfathrebu Mwy Diogel, sy'n helpu staff i gysylltu'n gyflymach â dioddefwyr nad yw eu hoff ddull cysylltu yn hysbys, ei chroesawu gan staff Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol.

Y Prif Ganfyddiadau: Roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr o'r farn bod cyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn glir ac yn gryno, ond roedd rhai o'r farn bod y llythyrau'n hir ac yn aneglur


Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn teimlo bod cyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron dros y ffôn, e-bost a llythyr yn glir ac yn gryno. Fodd bynnag, roedd y gyfran hon ychydig yn is ar gyfer llythyrau Gwasanaeth Erlyn y Goron o'i gymharu â'r dulliau cysylltu eraill. Yn unol â'r canfyddiadau hyn, eglurodd rhai dioddefwyr fod galwadau ffôn gyda Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn glir ac yn fuddiol gan eu bod yn gallu gofyn cwestiynau'n uniongyrchol a chael eglurhad manylach. Dywedodd un dioddefwr fod y llythyr a gafodd gan y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn hir iawn ac yn cynnwys llawer o wybodaeth, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd cymryd pob dim i mewn - yn enwedig a hwythau'n delio â straen a thrawma tymor hir.

⁶ Mae'r data hwn yn cynnwys achosion ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol rhwng Awst 2025 ac Ionawr 2026. Nid oes data ar gael ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO).

⁷ Mae'r data hwn yn cynnwys achosion yn y Gwasanaeth Cyffredinol rhwng Awst 2025 ac Ionawr 2026 y gwnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron gyfathrebu â nhw'n uniongyrchol dros alwad ffôn ac y cawsant y pecyn gwybodaeth ganddynt drwy e-bost neu drwy'r post.

⁸ Mae'r data hwn yn cynnwys achosion ym Mheilot y Gwasanaeth Ychwanegol rhwng Tachwedd 2024 a Gorffennaf 2025. Nid yw'r data'n cynnwys 476 o gofnodion lle mae'r dull cysylltu sy'n cael ei ffafrio yn cael ei gofnodi ond ddim y dull cyfathrebu a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd.

Siart 1: Cyfran yr ymatebion i'r arolwg dioddefwyr, yn ôl a oedd y dull cyfathrebu a gawsant gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn glir ac yn gryno a pha ddull cyfathrebu⁹



Mae dadansoddiad cip-sampl o lythyrau 'dim camau pellach' a 'cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr' a anfonwyd gan Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn dangos anghysondeb yn eglurder yr ohebiaeth a anfonir at ddioddefwyr ar draws y sampl. Ychydig o enghreifftiau o jargon cyfreithiol a welwyd ar draws y llythyrau Dim camau pellach a samplwyd ar gyfer pob gwasanaeth a'r llythyrau Cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr a anfonwyd gan gynllun Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, gyda'r rhan fwyaf o'r jargon cyfreithiol yn cael eu hesbonio yn y llythyrau. Fodd bynnag, roedd cyfran uwch o'r llythyrau Cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr a anfonwyd gan Beilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn cynnwys jargon cyfreithiol. Wrth gynnwys jargon cyfreithiol heb ei egluro gall fod yn anodd i ddioddefwyr ddeall a phrosesu'r wybodaeth mewn llythyrau, gan gyfyngu ar eu gallu i ymrwymo i'r achos a gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae adborth gan ddioddefwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cyfleu gwybodaeth mewn iaith glir i'w gwneud yn haws eu deall.

"Byddai wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael mwy o eglurhad o'r cyhuddiadau roedden nhw'n eu gwneud, oherwydd doeddwn i ddim yn deall y termau cyfreithiol [...] a does dim rheswm pam y dylwn i. Felly, byddai rhagor o wybodaeth am hynny wedi bod yn ddefnyddiol. (Dioddefwr)


Er mwyn sicrhau bod pob dioddefwr yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n eu galluogi i ddeall y penderfyniadau a'r camau nesaf, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu'r deunyddiau canllaw a'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer paratoi a drafftio cyfathrebiadau â dioddefwyr, gan ganolbwyntio ar feysydd y gwyddant y gallant fod yn fwy eglur. Er enghraifft, lleihau jargon cyfreithiol mewn templedi llythyrau neu ddarparu esboniadau clir pan na ellir osgoi terminoleg benodol, a sicrhau - lle bo hynny'n hysbys - bod y dull cysylltu sydd orau gan ddioddefwyr yn cael ei gofnodi'n gywir ac y glynir wrtho. **[ARG 1]**

⁹ Cafodd y categorïau ymateb eu grwpio oherwydd mai niferoedd bach o ymatebion a gafwyd (gweler y dulliau).

Y Prif Ganfyddiadau: Mae gwybodaeth glir a hygyrch gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn helpu dioddefwyr i ddeall y penderfyniadau a'r camau nesaf

Mae cyfathrebu clir, perthnasol ac amserol gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn helpu dioddefwyr i ddeall sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud ac i deimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am y camau nesaf, ac - o'r herwydd - mae'n dynodi gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn deall rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron yn yr achos ac yn gwybod beth fyddai'n digwydd nesaf yn yr achos. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn gwybod pryd i ddisgwyl y cyswllt nesaf gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi delio â'u holl gwestiynau ynghylch sut mae'r broses cyfiawnder troseddol yn gweithio. Fodd bynnag, roedd mwy nag un dioddefwr o bob deg (13%) yn teimlo *nad* oedd yn glir pryd y dylent ddisgwyl y cyswllt nesaf gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac roeddent yn anghytuno bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ateb eu holl gwestiynau am y broses cyfiawnder troseddol.

Siart 2: Cyfran yr ymatebion i'r arolwg o ddioddefwyr a oedd yn cytuno â'r datganiadau am y wybodaeth a gawsant gan Wasanaeth Erlyn y Goron am eu hachos



Ar gyfer rhai gohebiaethau cysylltu a chyfathrebu cymwys, mae gan ddioddefwyr yr hawl i gael adolygiad o benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron. Gelwir hyn yn 'hawl dioddefwyr i gael adolygiad'. Mae'r Rhaglen yn ceisio gwella ansawdd y wybodaeth am Hawl dioddefwyr i gael adolygiad sy'n cael ei rhannu â dioddefwyr fel bod ceisiadau'n cael eu symleiddio ar gyfer dioddefwyr cymwys. Mae nifer y ceisiadau cymwys dan y broses Hawl i gael adolygiad yn ddangosydd pwysig o ansawdd gwasanaethau a gall roi cipolwg ar ba mor dda y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi rhoi gwybodaeth glir a chywir i ddioddefwyr am yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Canfu adolygiadau blaenorol¹⁰ nad oedd dioddefwyr bob amser yn cael gwybod am eu Hawl i gael adolygiad, ond hefyd fod ceisiadau anghymwys dan y broses Hawl i gael adolygiad yn rhoi pwysau mawr ar adnoddau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

¹⁰ [A victims' strategic needs assessment for the Crown Prosecution Service](#) (2022), Crest Advisory.


Ymysg yr achosion sy'n gymwys i dderbyn Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, mae cyfanswm nifer y ceisiadau Hawl i gael adolygiad sy'n cael eu cyflwyno yn cynyddu; fe allai hyn adlewyrchu bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybod am eu Hawl i gael adolygiad. Rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Hydref 2025, derbyniwyd 1,466 o geisiadau Hawl i gael adolygiad cymwys - 21% o gynnydd o'r cyfnod blaenorol o 12 mis (Tachwedd 2023 - Hydref 2024). Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau Hawl i gael adolygiad anghymwys hefyd yn cynyddu ar gyfradd debyg; fe allai hyn awgrymu nad yw'r ymwybyddiaeth gynyddol hefyd wedi esgor ar ddealltwriaeth glir o'r meini prawf cymhwyso ar gyfer y broses Hawl i gael adolygiad. Cyflwynwyd 206 o geisiadau Hawl i gael adolygiad anghymwys rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Hydref 2025, cynnydd o 28% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Mae'r lefelau ymateb i arolygon dioddefwyr yn rhy isel ar hyn o bryd inni allu gwneud dadansoddiad cadarn o ymwybyddiaeth dioddefwyr o'r broses Hawl i gael adolygiad. Dylid ystyried y cynnydd mewn ceisiadau Hawl i gael Adolygiad cymwys ac anghymwys yng nghyd-destun y cynnydd yn nifer yr erlyniadau, ac felly'r cynnydd yn nifer y penderfyniadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron a allai fod wedi bod yn gymwys am Hawl i gael Adolygiad.

Wrth i'r gwasanaeth esblygu, bydd yn bwysig monitro effaith y Rhaglen ar geisiadau Hawl i gael adolygiad er mwyn deall a yw dioddefwyr yn ymwybodol o'u hawl i gael adolygiad. Hyd yma, fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn dangos bod rhoi gwybodaeth glir i ddioddefwyr wedi achosi cynnydd bach, dichonadwy yn y galw i Wasanaeth Erlyn y Goron.

Y Prif Ganfyddiadau: Roedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr wedi cael negeseuon empathig gan staff Gwasanaeth Erlyn y Goron, ond roedd rhai'n teimlo nad oedd elfennau eraill o wasanaethau'r Rhaglen, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, yn ystyriol o'u trawma

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn meddwl bod y cyswllt a gawsant gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn empathig. Fodd bynnag, roedd y gyfran hon yn llawer is ar gyfer dioddefwyr a gafodd lythyrau gan Wasanaeth Erlyn y Goron, gyda 54% o'r dioddefwyr a gafodd lythyrau yn cytuno bod y llythyr yn empathig, a 31% (n=4) yn dweud nad oedd y llythyr yn empathig. Yn unol â'r canfyddiad hwn, dywedodd un dioddefwr yn ystod cyfweiliad fod tôn y llythyr a gafodd yn 'ffurfiol' er bod y pwnc yn bersonol iawn, a bod galwad ffôn yn caniatáu iddynt gysylltu ar lefel mwy personol.

Siart 3: Cyfran yr ymatebion i'r arolwg dioddefwyr, yn ôl a oedd y dull cyfathrebu a gawsant gan Wasanaeth Erllyn y Goron yn glir ac yn gryno a pha ddull cyfathrebu



Mae dadansoddiad cip-sampl o lythyrau Dim camau pellach a anfonwyd gan Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn dangos bod iaith empathig yn cael ei defnyddio'n gyson ac yn naturiol¹¹, a hefyd fod manylion a oedd yn benodol i'r dioddefwr neu'r achos yn cael eu cynnwys; mae hyn yn sicrhau bod llythyrau'n teimlo'n fwy pwrpasol a phersonol i'r dioddefwr. Fodd bynnag, roedd ein dadansoddiad o lythyrau Cysylltu a Chyfathrebu a anfonwyd gan Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn dangos mwy o amrywiaeth yn y defnydd o iaith empathig. Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf o lythyrau Cysylltu a Chyfathrebu yr anfonodd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol at ddioddefwyr yn cynnwys iaith empathig heb ei sgriptio, dim ond rhai llythyrau a anfonodd Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol oedd yn cynnwys iaith empathig nad oedd yn dilyn sgript. Roedd yr holl lythyrau Cysylltu a Chyfathrebu a anfonodd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol at ddioddefwyr wedi'u teilwra a'u personoli, ac yn cynnwys manylion a oedd yn benodol i'r dioddefwr neu'r achos. Fodd bynnag, nid oedd estyn gair o ddiolch priodol a phwrpasol yn rhywbeth a wnaed yn gyson.

Mewn cyfweiliadau, disgrifiodd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr eu cysylltiad ag o leiaf un aelod o staff Gwasanaeth Erllyn y Goron fel un empathig ac roeddent yn gwerthfawrogi bod y cyfreithwyr a'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn cysylltu â nhw ar lefel ddynol. Disgrifiodd y dioddefwyr y ffordd roedd staff yn cyfathrebu â nhw fel ffordd 'agos-atoch' neu ddiffuant.

*"Roeddwn i'n teimlo'n well o lawer ar ôl y cyfarfod [cyn-treial]. Roedd y cyfreithiwr yn dda iawn. **Doeddwn i ddim yn teimlo fy mod yn cael fy rhuthro o gwbl. Roedd hi mor gwrtais - yn gynnes ac yn gefnogol iawn.** Dangosodd ei hochr ddynol"* (Dioddefwr)

¹¹ Edrychwch ar yr Adroddiad Technegol (2026) i gael rhagor o fanylion am y fframwaith codio iaith empathig.

"I ddweud y gwir, roedd y cynrychiolydd o Wasanaeth Erlyn y Goron yn hynod huawdl, yn hynod empathig, fel bob tro rydw i wedi cwrdd ag ef." (Dioddefwr)

Roedd dioddefwyr yn gwerthfawrogi pan oedd staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod effaith y trosedd, yn ogystal ag unrhyw straen a phryder y mae'r achos troseddol a'r broses gyfreithiol yn ei achosi, ac yn cydnabod sut gallai'r dioddefwr fod yn teimlo. Eglurodd un dioddefwr nad oedd empathi, iddyn nhw, yn golygu cymryd agwedd 'bechod drosoch chi' neu 'druan ohonoch chi' ond ei fod yn hytrach yn golygu cydnabod y cryfder a gymerai i'r dioddefwr symud ymlaen.

"Roeddwn i'n amlwg yn nerfus i fynd i'r llys ac roedd hi'n hawdd iawn i'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr leddfu unrhyw fath o deimlad annifyr neu unrhyw beth a oedd fy rhoeni ac fe lwyddodd i dawelu fy meddwl a dangos gwir empathi tuag ataf. A dweud, 'Rwy'n gwybod bod hon yn sgwrs nad oeddech chi erioed wedi meddwl y byddai'n rhaid ichi ei chael, ond mae'r ffaith eich bod chi yn ei chael hi a'ch bod chi'n gallu siarad am y peth gyda ni yn dweud llawer iawn'" (Dioddefwr)

Hefyd, dywedodd rhai dioddefwyr fod staff Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi creu deinameg gyfforddus a chyfartal yn ystod cyfarfodydd cyn treial, a oedd wedi galluogi dioddefwyr i fod yn agored a gofyn cwestiynau heb deimlo eu bod yn cael eu beirniadu. Disgrifiodd un dioddefwr fel roedd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr wedi sylweddoli eu bod yn nerfus yn ystod cyfarfod cyn treial ac wedi eu helpu drwy ddangos empathi a chreu cyfle iddynt ofyn cwestiynau.

"Rydyn ni yma i'ch helpu chi. Nid oes yr un cwestiwn yn rhy fawr nac yn rhy fach, ac fe geisiwn ei ateb yn y ffordd orau y gallwn ni, ac roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus iawn wedyn i ofyn y cwestiynau hynny a chael y sicrwydd hwnnw. [...] Roedd [y Swyddog Cyswllt] wir wedi rhoi o'i hamser i wrando ar yr hyn roeddwn i'n ei ddweud, ac roeddwn i'n ddiolchgar iawn am hynny." (Dioddefwr)

Fodd bynnag, teimlai rhai dioddefwyr fod rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiai staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ansensitif. Disgrifiodd un dioddefwr fel yr oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyfeirio ato drosodd a drosodd fel tyst, a bod hynny, yn eu barn nhw, yn lleihau'r effaith aruthrol a gafodd y trosedd arnynt. Dywedodd dioddefwyr eraill fod y cyfathrebiadau a gawsant gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn amheronol ac nad oeddent yn cydnabod yr effaith a'r trawma aruthrol y mae dioddefwyr yn ei deimlo.

*"Rwy'n deall bod bobl yn gwneud hyn bob dydd. **Rwy'n deall bod yn rhaid iddynt gymryd cam yn ôl.** Ond roeddwn i'n meddwl y ceid diffyg [dealltwriaeth o drawma a sut gallai trawma effeithio ar bobl] ar draws pob rhan o'r gwasanaeth."* (Dioddefwr)

"A chan eu bod yn delio â hynny drwy'r amser, rwy'n credu eu bod yn colli golwg ar

ba mor [rheg] drawmatig ydy hi i'r unigolion." (Dioddefwr)

I un dioddefwr, roedd y ffordd yr ymatebodd y cyfreithiwr i gwestiynau yn ystod un cyfarfod cyn treial wedi gwneud iddynt deimlo eu bod yn achosi trafferth iddynt. I ddioddefwr arall, pan ddywedodd y cyfreithiwr wrthynt am 'beidio â phoeni' am wahanol elfennau o broses y llys, teimlent eu bod yn eu diystyru yn hytrach nag yn rhoi tawelwch meddwl iddynt (fel y bwriadai'r cyfreithiwr o bosibl).

"Roeddwn i'n teimlo nad oedden nhw wedi arfer â phobl yn gofyn cwestiynau, er mai cwestiynau sylfaenol oedden nhw yn fy meddwl i. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n gofyn cwestiynau eithaf safonol o ystyried natur yr hyn oedd yn digwydd. Ac roeddwn i'n bendant yn teimlo fy mod i'n achosi trafferth." (Dioddefwr)

I rai dioddefwyr, er bod empathi a gofal yn dod drosodd yn eu cyswllt â staff unigol Gwasanaeth Erlyn y Goron, roeddent yn teimlo nad oedd elfennau ehangach y gwasanaeth wedi ystyried eu teimladau a'u profiadau nhw. Yn benodol, dywedodd rhai dioddefwyr y byddai agwedd fwy empathig ac ystyriol o drawma gan Wasanaeth Erlyn y Goron wrth gynllunio cyfarfodydd wedi gwella eu profiad. Er enghraifft, trefnwyd cyfarfod cyn-treial un dioddefwr mewn canolfan argyfwng trais rhywiol; roedd hyn yn anghyfforddus ac yn sbardun i'r dioddefwr. Byddent wedi gwerthfawrogi sgwrs am y dewis o leoliadau ar gyfer y cyfarfod fel y gellid bod wedi ystyried hyn wrth drefnu. Mae'n bwysig bod empathi'n cael ei arfer ar bob lefel wrth ddarparu gwasanaethau, gyda staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos agwedd empathig sy'n ystyriol o drawma yn eu cyswllt â dioddefwyr, yn ogystal ag wrth drefnu a dewis amser ar gyfer y cyswllt hwn.

Meithrin ymddiriedaeth a hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron

Mae meithrin ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron yn un o ganlyniadau hirdymor pwysig y Cynllun, ac chaiff hynny ei gyflawni pan fydd dioddefwyr yn cael gwasanaeth cydlynol a chydgyssylltiedig o ansawdd uchel ar draws y System Cyfiawnder Troseddol.

Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr a gafodd ohebiaeth gynnar a rhagweithiol gan y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr am benderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron, am diweddariadau ac am oedi yn credu bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd yr achos o ddifrif


Fe wnaethom ymgysylltu â grŵp ehangach o ddioddefwyr nad oeddent wedi cael gwasanaeth y Rhaglen yn uniongyrchol er mwyn meithrin ein dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr o ran cyfathrebu a chael cefnogaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Yr adborth oedd bod cyfathrebu cynnar gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn bwysig i roi sicrwydd i ddioddefwyr bod yr achos yn mynd rhagddo, i'w cadw'n rhan o'r broses ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y penderfyniadau a'r camau nesaf. Eglurodd fod y penderfyniad ynghylch cyhuddo yn bwynt hollbwysig i Wasanaeth Erlyn y Goron egluro'r penderfyniad a chefnogi dioddefwyr i ymrwymo i'r broses gyfreithiol. Mae'r adborth hwn yn cyd-fynd â model darparu'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr, lle mai'r cyfathrebiadau 'Penderfyniad

i Gyhuddo' a 'Dim Camau Pellach' yw'r pwyntiau cyswllt cyntaf pan all dioddefwyr ddisgwyl clywed yn uniongyrchol gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

*"Dylid hysbysu'r dioddefwr ynghylch penderfyniadau i gyhuddo. Mae hyn yn bwysig iawn gan mai **dyma'r pwynt cyntaf pan rydych chi'n teimlo'n ddiogel eto**, ac fel y gallwch chi fyw bywyd normal."* (Dioddefwr, arolwg Cymorth i Ddioddefwyr)

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod tri o bob pedwar dioddefwr a gafodd ohebiaeth Penderfyniad i Gyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn credu bod yr achos, a hwythau fel unigolyn, yn bwysig i Wasanaeth Erlyn y Goron. Roedd dros 90% o'r dioddefwyr a gafodd ohebiaeth Penderfyniad i Gyhuddo hefyd yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd yr achos o ddifrif. Mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol ac mae'n dangos bod y cyfathrebu cynnar hwn gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn rhoi sicrwydd i'r rhan fwyaf o ddioddefwyr am y gofal a'r diwydrwydd y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu ddangos mewn perthynas â'r achos. Fel yr adlewyrchir yn y Theori Newid, gall hyn gael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron.

Siart 4: Cyfran yr ymatebion i arolwg dioddefwyr o Benderfyniadau i Gyhuddo i ddatganiadau ynghylch sut mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu trin nhw a'r achos



Fodd bynnag, roedd 63% o'r dioddefwyr a oedd wedi cael llythyr Dim Camau Pellach gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn teimlo nad oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn poeni am yr achos, roedd 50% yn teimlo nad oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn poeni amdanyn nhw fel unigolyn, ac roedd 75% yn meddwl nad oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd yr achos o ddifrif.¹² Mae'n debygol bod derbyn y wybodaeth na fydd yr achos yn mynd yn ei flaen yn effeithio'n rhannol ar amgyffrediad dioddefwyr. Mae adborth testun agored gan rai dioddefwyr a oedd wedi cael penderfyniad Dim Camau Pellach gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn dangos, hyd yn oed pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhoi newyddion drwg am ganlyniad yr achos, os ydynt yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n

¹² Sylwch mai bach oedd maint sampl y dioddefwyr a oedd wedi cael gohebiaeth Dim camau pellach (n=8) ac y dylid felly ddehongli'r canlyniadau hyn â gofal.

dangos gofal ac empathi, y gall hyn gynyddu ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron.

*“Mae [Gwasanaeth Erlyn y Goron] wedi mynd yr ail filltir. Os nad oedden nhw’n poeni, fydden nhw ddim yn fy ffonio. Roedd gennyf gywilydd o’r digwyddiad ac roeddwn wedi fy niweidio’n emosiynol. **Ond ffoniodd Gwasanaeth Erlyn y Goron fi ynghylch y digwyddiad, ac fe wnaeth hyn fi’n hapus a gwneud imi deimlo eu bod nhw’n poeni amdanaf.** Roedd y person y siaradais â nhw dros y ffôn yn fawr eu gofal ac yn broffesiynol (Dioddefwr, Penderfyniad Dim Camau Pellach Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol)*

Mae’r wybodaeth a gafwyd o gyfweiliadau â dioddefwyr a gafodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu cynnar a rhagweithiol gan Wasanaeth Erlyn y Goron i feithrin ymddiriedaeth a hyder. Nid oedd y rhan fwyaf o’r dioddefwyr a gyfwelwyd wedi cael gohebiaeth am benderfyniad ynghylch cyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron oherwydd bod y cyhuddiadau yn yr achos wedi digwydd cyn dechrau’r Rhaglen. Dywedodd nifer o’r dioddefwyr, cyn iddynt gael eu gwahodd i gyfarfod cyn treial, nad oeddent wedi cael llawer o wybodaeth am hynt yr achos. Roedd hyn wedi cael effaith negyddol ar eu hymddiriedaeth a’u hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron.

“Roedd fel pwysau mawr ar eich ysgwyddau. Mae’n gas gen i beidio â gwybod - y teimlad gwaethaf yw peidio â gwybod, mae’n beth mor ddifrifol i ddioddefwyr fynd drwyddo.” (Dioddefwr)

Roedd y prinder cyswllt â Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd wedi niweidio ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron pan fo’r achos yn cael ei ohirio heb eglurhad. Disgrifiodd un dioddefwr sut roedd oedi dro ar ôl tro heb ddiweddariad nac eglurhad gan Wasanaeth Erlyn y Goron wedi dwysau’r trawma, ac nid oedd yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod hynny.

“Fe gafodd ei oedi dro ar ôl tro, ar ôl tro heb ddim eglurhad pam. Roeddwn i’n teimlo nad oedd [Gwasanaeth Erlyn y Goron] yn deall y trawma roeddwn i’n ei wynebu yn yr holl broses.” (Dioddefwr)

Roedd y rhan fwyaf o’r dioddefwyr nad oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi eu hysbysu o’r penderfyniad ynghylch cyhuddo yn dweud y byddai cyfathrebu rhagweithiol a diweddariadau adeg cyhuddo wedi eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a bod ganddynt fwy o ran yn yr achos. Mae’r adborth hwn yn awgrymu y byddai model darparu’r Rhaglen, sy’n cynnwys cyfathrebiadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron adeg cyhuddo a diweddariadau pan fydd yr achos yn cael ei oedi, wedi cynyddu eu hyder a’u hymddiriedaeth yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron.

“Rwy’n meddwl pe bawn i wedi cael rhywfaint o wybodaeth pan gafodd y cyhuddiadau eu dwyn [...] pe bawn i wedi cael rhyw fath o gyswllt ganddynt, yna

dydw i ddim yn meddwl, pan ges i'r holl wybodaeth allan o'r ple, na fyddai wedi teimlo mor drwm i mi." (Dioddefwr)

Y Prif Ganfyddiadau: Mae cyfarfodydd cyn-treial wedi gwella ymddiriedaeth a hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron ymysg y rhan fwyaf o ddioddefwyr a oedd yn eu mynychu, ond cafodd rhai dioddefwyr brofiad negyddol pan na fodlonwyd eu disgwyliadau ynghylch pwrpas y cyfarfodydd

Mae cyfarfodydd cyn treial yn ddewisol ac yn rhoi cyfle i ddioddefwyr ofyn cwestiynau am y broses cyfiawnder troseddol a chlywed yn uniongyrchol gan Wasanaeth Erlyn y Goron cyn y treial.

I nifer o ddioddefwyr, y cyfarfod cyn-treial oedd y tro cyntaf iddynt deimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwrandao arnynt ac yn eu cefnogi. Eglurodd y dioddefwyr fod cael atebion i'w cwestiynau yn y cyfarfod cyn-treial wedi tawelu eu nerfau ac wedi cynyddu eu hyder yn y broses gyfreithiol. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi pan oedd cyfreithwyr yn amlwg yn deall yr achos, gan fod hyn yn rhoi hyder iddynt fod y cyfreithiwr wedi adolygu'r holl dystiolaeth ac yn credu y gellid dwyn cyhuddiad yn yr achos. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd i ddioddefwyr eu bod yn cael eu credu a'u cefnogi gan y tîm cyfreithiol wrth fynd i dreial.

"Roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl cael cyswllt â Gwasanaeth Erlyn y Goron. Sylwodd fy nghyngorydd annibynnol ar drais rhywiol fy mod yn dawelach fy meddwl ar ôl cael ateb i'm cwestiynau. Roedd gen i bobl a oedd yn poeni amdanaf. Wrth gwrs, rydych chi'n dal i boeni, ond rydych chi'n meddwl 'o'r diwedd - mae gen i gyswllt', dydw i ddim yn y tywyllwch mwyach. Mae'n gysur mawr ichi" (Dioddefwr)

*"Roedd yn galonogol pan [ddywedodd y cyfreithiwr], 'Rydw i wedi darllen popeth. Rydw i eisoes yn gwybod popeth am hynny ac rydw i'n dal i ddwyn [yr achos]'. Roedd fel codi pwysau mawr oddi ar fy ysgwyddau pan wnaethant ddweud hynny, [...] felly beth bynnag gaiff ei daflu ataf [...] maen nhw'n dal i feddwl ei fod yn ddigon cadarn. [...] Fe fyddan nhw'n gwneud eu gorau, ond fe ddylwn i gofio ei bod hi'n safon uchel iawn cael [achos i'r llys]. **Felly maen nhw'n fy nghredu i. A beth bynnag fo'r canlyniad, rwy'n gallu dal gafael ar hynny, ac roedd hynny'n bwerus iawn.**"* (Dioddefwr)

Yn ystod cyfarfodydd cyn treial, roedd dioddefwyr yn gwerthfawrogi gwybodaeth glir a realistig am brosesau'r llys, gan gynnwys yr agweddau anodd a heriol ar achosion. Roedd hyn yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus, yn fwy parod ac ymwybodol o'r canlyniadau posibl cyn y treial.

*"Yn amlwg, maen nhw'n dweud pethau wrthyh chi nad ydych chi eisiau eu clywed. Ac yn amlwg, rydych chi'n gwybod na fydd y llys yn lle braf i fod. **Onid roedden nhw'n ddi-flewyn-ar-dafod am y peth, ond yn garedig hefyd.** [...] maen nhw'n ei dweud hi fel y mae hi."* (Dioddefwr)

Er bod tryloywder yn bwysig i ddioddefwyr, dylid hefyd gydnabod pryderon y dioddefwyr, gan gynnwys unrhyw bryderon diogelwch o safbwynt y diffynnydd, a cheisio tawelu eu meddwl os ydy hynny'n bosibl. Ym mhrofiad un dioddefwr, roedd y cyfarfod cyn-treial wedi cael effaith negyddol ar eu hymddiriedaeth a'u hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron oherwydd nad oeddent yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi rhoi digon o dawelwch meddwl iddynt mewn perthynas â phryderon diogelwch a oedd ganddynt am y treial.

'Y peth mwyaf a ddysgais o'r cyfarfod hwnnw oedd imi 'ddisgwyl yr annisgwyl'. [...]
Neges a oedd bron yn dweud: peidiwch â disgwyl dim diogelwch gyda hyn oherwydd allwn ni warantu dim byd ichi. (Dioddefwr)

I ddioddefwr arall, roedd cael gwybod na allent ofyn cwestiynau yn ymwneud â'r dystiolaeth yn yr achos yn ail achosi'r trawma iddynt gan ei fod yn adlewyrchu'r patrwm o gadw'n dawel yr oeddent wedi'i brofi fel rhan o'u camdriniaeth. Byddai'r dioddefwr hwn wedi gwerthfawrogi gwell eglurhad gan Wasanaeth Erlyn y Goron cyn y cyfarfod ar y cyfyngiadau cyfreithiol sy'n golygu na all tystiolaeth mewn achos gael ei thrafod.

Er mwyn lleihau'r risg bod dioddefwyr yn cael eu siomi, eu drysu neu eu hail-drawmateiddio yn ystod cyfarfodydd cyn-treial, dylai Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr sicrhau eu bod yn esbonio'n glir wrth ddioddefwyr beth yw pwrpas cyfarfodydd cyn-treial cyn iddynt fynychu er mwyn helpu i reoli disgwyliadau ynghylch yr hyn y gellir ac na ellir ei drafod. Gall rhannu'r wybodaeth hon ymlaen llaw alluogi dioddefwyr i baratoi'n well ar gyfer cyfarfodydd ac efallai wneud nodyn o gwestiynau yr hoffent eu gofyn, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y budd gorau o'r cyfarfodydd. **[ARG 2]**

Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r cydgysylltiad amlwg â phartneriaid yn gwella ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos, o'r 71 o ddioddefwyr a gafodd wybodaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo neu am y wybodaeth ddiweddaraf, dywedodd 87% (n=62) fod y wybodaeth a gawsant yn gyson rhwng y ddwy asiantaeth. Mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol ac mae'n dangos bod y ffordd y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu yn mynegi ac yn egluro gwybodaeth wrth ddioddefwyr yn gyson, gan leihau'r risg y bydd dioddefwyr yn cael gwybodaeth anghyson a allai effeithio ar eu hymddiriedaeth a'u hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron a'r partneriaid ehangach.

Fodd bynnag, nid dyma brofiad pob dioddefwr. Mae adborth testun agored o arolygon yn dangos sut y gall ymateb heb ei gydlyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu gael effaith negyddol ar brofiadau dioddefwyr, gan gynnwys yr amgyffrediad nad yw'r naill asiantaeth na'r llall yn cymryd yr achos o ddifrif.

Byddai'r heddlu'n dweud un peth wrthyf a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dweud peth arall. [...] Hefyd, wrth sillafu fy enw, mae'n teimlo nad ydw i'n cael fy nghymryd o

ddifrif pan fydda i'n rhoi fy enw i'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron am wybodaeth ac maen nhw'n methu â dod o hyd i mi ar y system ac rydw i'n egluro bob tro bod fy enw wedi'i sillafu'n anghywir a does neb yn gwneud dim i'w newid." (Dioddefwr, arolwg Penderfyniad i Gyhuddo, Gwasanaeth Cyffredinol)

Roedd un dioddefwr a gafodd Wasanaeth Ychwanegol RASSO yn teimlo bod cael diweddariadau a chymorth gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol yn dangos dull cydlynol o fwrw'r achos yn ei flaen. Roedd hyn yn helpu i roi hwb i hyder y dioddefwr yn y System Cyfiawnder Troseddol ehangach ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan wahanol asiantaethau. Teimlai dioddefwr arall y byddai wedi bod yn fuddiol i'r swyddog heddlu cyfrifol fynychu eu cyfarfod cyn-treial yn ogystal â staff Gwasanaeth Erlyn y Goron i'w helpu i ddeall sut roedd yr asiantaethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd ar yr achos.

*"Pan fyddwch chi'n teimlo fel eich bod yn cael eich gadael yn y tywyllwch, rydych chi'n teimlo nad oes neb yn poeni amdanoch, ac yna rydych chi'n mynd yn bryderus ac yn nerfus. **Mae [cael cyswllt â rhywun] yn tawelu eich nerfau. Mae cael y Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud ichi deimlo bod gennych chi bobl o'ch cwrmpas sy'n gallu eich cefnogi a gofalu amdanoch. [...]** Ar ôl ichi gael y cymorth hwnnw, does dim angen ichi droi'n ôl at ymddygiad niweidiol"* (Dioddefwr)

Gwella Lles Dioddefwyr


Mae gwella lles dioddefwyr yn un o'r canlyniadau hollbwysig y mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn ceisio ei gyflawni. Ceir cysylltiad rhwng gwella lles dioddefwyr a dioddefwyr yn parhau â'r broses ac felly gall helpu i leihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr.

Y Prif Ganfyddiadau: Teimlai'r rhan fwyaf o ddioddefwyr fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu trin yn deg a chyda pharch, a bod hynny'n lleihau'u pryder ac yn gwella'u lles

Mae ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol¹³ wedi dangos y ceir cysylltiad clir rhwng lles a mesurau pryder a chael eich trin yn deg a chyda pharch. Mae data ein harolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi delio â'u hachos yn deg ac wedi eu trin â pharch, a bod hynny'n lleihau pryder ac yn gwella lles.

Siart 5: Cyfran yr ymatebion i'r arolwg dioddefwyr yn ôl a oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi'u trin â pharch ac wedi delio â'r achos yn deg

¹³ Mae Crest a Fortia Insight wedi cynnal dadansoddiad ar wahân o ddata o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr a ddelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i sefydlu'r berthynas hon.



Fe wnaethom ddefnyddio dull dadansoddol i amcangyfrif sut mae'r gwelliant hwn mewn lles yn dod â budd economaidd ariannol. Fe wnaethom amcangyfrif bod gwella lles dioddefwyr yn esgor ar fudd blyneddol o £162.6 miliwn i Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Gweler Pennod 4 am ragor o fanylion am y dadansoddiad hwn.

Disgrifiodd rhai dioddefwyr sydd wedi cael y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yr effaith gadarnhaol a gafodd cyswllt gan Wasanaeth Erllyn y Goron arnynt, o ran teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso.

"Roedd Gwasanaeth Erllyn y Goron yn gwneud i mi deimlo fy mod i'n rhan fawr o'r broses ac fy mod yn cael fy nghefnogi, oherwydd rydych chi'n gwybod eu bod nhw'n adolygu popeth. Mae ganddynt fwy o wybodaeth na'r heddlu am y broses gyfreithiol a'r ochr gyfiawnder. Mae cael sefydliad sydd mor hanfodol i'r system gyfiawnder yn y Deyrnas Unedig yn siarad â'r dioddefwr yn gwneud i chi deimlo eich bod yn cael eich grymuso a'ch annog." (Dioddefwr)

Fodd bynnag, i eraill, roedd y ffordd yr aethpwyd ati i gysylltu - gan gynnwys sylwadau ansensitif neu gyswllt nad oedd yn ystyriol o drawma - wedi cael effaith negyddol ar eu lles drwy waethygu profiad a oedd eisoes yn anodd.

"Roeddwn i'n siomedig iawn gyda'r cyfarfod cyn treial, a dydw i ddim yn gweld pa werth sydd [ganddo] i'w ychwanegu at yr achos llys. Mae'r rhwystredigaeth a deimlais o'r cyfarfod hwn wedi cael effaith fawr ar fy iechyd meddwl." (Dioddefwr)

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 76% (n=97) o ddioddefwyr yn gwybod lle gallant ddod o hyd i ragor o wybodaeth am wasanaethau cymorth sy'n gallu darparu cyngor a gofal hollbwysig i helpu dioddefwyr i reoli eu lles. Fodd bynnag, nid oedd 15% (n=16) o ddioddefwyr yn gwybod lle gallent ddod o hyd i ragor o wybodaeth am wasanaethau cymorth, sy'n awgrymu y gallai Gwasanaeth Erllyn y Goron wneud mwy i gyfeirio dioddefwyr at gymorth. Mae templedi llythyrau presennol Gwasanaeth Erllyn y Goron yn annog y sawl sy'n drafftio llythyrau i gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau

cymorth sydd wedi'u teilwra ar sail eu hamgylchiadau unigol. Fodd bynnag, canfu ein dadansoddiad cip-sampl o lythyrau Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol mai dim ond un llythyr Dim camau pellach - a dim un llythyr cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr - oedd yn cyfeirio at wasanaethau cymorth wedi'u teilwra, er bod pob llythyr yn cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth generig.

Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr annog timau Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) i greu dogfennau cyfeirio sy'n benodol i ardal sy'n rhestru'r gwasanaethau cymorth lleol er mwyn paratoi staff yn well i roi manylion cymorth sy'n benodol i ardal i ddioddefwyr. Dylid cynnal dadansoddiad cip-sampl pellach o gyfathrebiadau'r Rhaglen i ganfod a yw hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar i ba raddau y cyfeirir dioddefwyr at wasanaethau cymorth wedi'u teilwra. **[ARG 3]**

Lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr

Mae lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr a chynnal ymrwymiad dioddefwyr gydol y broses cyfiawnder troseddol yn un o'r canlyniadau allweddol i'r Rhaglen. Yn unol â'r Theori Newid, mae gostyngiad yn y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr yn deillio o wella profiad dioddefwyr, ac fe wneir hyn drwy ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n ystyriol o drawma sy'n pwysleisio ac yn ymdrechu i ddarparu diweddariadau rhagweithiol, cymorth personol, a chyfathrebu cyson.

Mae gweddill y bennod hon yn cyflwyno adborth ansoddol gan ddioddefwyr ar sut mae'r Rhaglen wedi effeithio ar gysylltiad dioddefwyr â'r broses cyfiawnder troseddol. Mae Pennod 3 yn edrych ar sut mae'r rhaglen yn effeithio ar hyn o bryd ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr, ar sail data meintiol.

Y Prif Ganfyddiadau: I rai dioddefwyr - ond nid pob un - roedd cael gwasanaeth o ansawdd uchel gan Wasanaeth Erlyn y Goron wedi eu helpu i barhau â'r achos

Mae ein cyfweiliadau â dioddefwyr yn rhoi rhyw syniad o effaith bosibl y gwasanaeth ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr. Roedd rhai dioddefwyr a oedd wedi cael y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn teimlo bod y cyfarfod cyn y treial wedi eu helpu i beidio â thynnu'n ôl o'r achos drwy dawelu eu meddwl cyn y treial.

Roeddwn i wedi cyrraedd y pwynt lle roeddwn i'n teimlo na allwn i wneud o [...] Roeddwn i'n poeni'n arw. Roeddwn i'n dechrau teimlo ofnus braidd. Roeddwn i'n dechrau teimlo'n nerfus iawn. Ond ar ôl imi gael y cyfarfod, roeddwn i'n teimlo'n dawel fy meddwl yn sydyn oherwydd bod llawer o'm hofnau a'm pryderon wedi cael eu hateb.” (Dioddefwr)

“Ar y dechrau, pan nad oedd gen i ddim cefnogaeth, doedd gen i ddim cymaint â hynny o ddiddordeb yn yr achos, ac fe wnes i syrthio i'r fagl o siarad â ffrind y sawl a gyflawnodd y trosedd ac roeddwn i eisiau tynnu nghefnogaeth yn ôl. Pyped oeddwn i. Doeddwn i ddim yn cael cefnogaeth ac nid oedd Swyddog Technegau Ymchwilio

Troseddau Rhywiol yr heddlu yn ymateb imi. Rydych chi eisoes yn ofni cyflawnwr y trosedd, ond os ydych chi'n teimlo nad yw'r gweithwyr proffesiynol yn eich helpu chi, dydych chi ddim eisiau mynd â phethau ymhellach.” (Dioddefwr)

Yn yr un modd, roedd rhai dioddefwyr a gafodd benderfyniad cadarnhaol ynghylch cyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron a chyswllt gan Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn teimlo bod cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wedi eu helpu i ddeall y camau nesaf a pharhau â'r achos.

“Mae cysylltu â mi fel dioddefwr wedi fy helpu i barhau â'r achos a fydd yn cael ei glywed yn y llys. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ac rwy'n gwerthfawrogi bod rhywun ar gael i wrando.” (Dioddefwr)

Yn bersonol, rwy'n teimlo bod derbyn y wybodaeth ar e-bost yn ddefnyddiol iawn. Roedd hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf imi ac mae hefyd yn rhoi gwybod imi beth allai ddigwydd nesaf, er enghraifft, [cael] fy ngalw fel tyst. Dyma'r tro cyntaf imi dderbyn gwybodaeth fel hyn. Fel arfer, dydw i ddim ond wedi cael gwybod [am] y swyddog yn yr achos neu pan fu'r diffynnydd yn y llys a bod [y] penderfyniad terfynol wedi'i wneud”. (Dioddefwr)

Fodd bynnag, disgrifiodd rhai dioddefwyr fel yr oeddent yn awyddus i barhau â'r achos oherwydd cryfder eu cymeriad, er ei bod yn ymddangos nad oedd cefnogaeth i'w chael gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Eglurodd un dioddefwr, nad oedd wedi cael gwybod gan Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniad ynghylch cyhuddo ac nad oedd felly ddim ond wedi cael gwasanaeth rhannol o dan y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr, ei fod yn teimlo nad oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei gefnogi na'i werthfawrogi oherwydd nad oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn defnyddio iaith glir nac yn rhoi esboniad da o'r cyhuddiadau, ddim yn rhoi diweddariadau rhagweithiol, nac yn cydnabod effaith y trawma ar y dioddefwr.

*Pe bawn i wedi cael llai o gefnogaeth neu pe bawn i'n llai penderfynol, fe fyddwn i wedi rhoi'r gorau iddi. Ac rwy'n falch na wnes i, oherwydd rwy'n falch iawn o'r ffaith fy mod i wedi'i wneud o, a'n bod wedi cael canlyniad digon da. Ond doeddwn i ddim yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn fy nghefnogi. **Roeddwn i'n teimlo mai rhan fach iawn o'u peiriant oeddwn i.** Doeddwn i ddim yn teimlo fy mod i'n bwysig, fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi, na fy mod i'n cael fy nghynnwys.” (Dioddefwr)*

Dywedodd dioddefwr gwahanol, nad oedd wedi cael gohebiaeth am benderfyniad ynghylch cyhuddo gan Wasanaeth Erlyn y Goron, efallai na fyddai wedi parhau â'r achos pe bai'n gwybod yn gynharach y byddai'r achos yn cymryd cymaint o amser. Yn yr achos hwn, efallai y byddai cyfathrebu cynharach gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yn unol â model darparu'r Rhaglen, gan roi amserlenni realistig a diweddariadau ar hynt yr achos, wedi helpu'r dioddefwr hwn i dynnu'n ôl yn gynharach, yn hytrach na pheryglu ei fod yn tynnu'n ôl yn ddiweddarach.

Pennod 2: Rhoi'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ar waith

Mae'r adran hon yn trafod sut mae gweithredu'r Rhaglen wedi cyfrannu at brofiadau dioddefwyr. Mae'r Rhaglen wedi cyflwyno newidiadau mewn prosesau i wella profiadau dioddefwyr; maent wedi'u rhestru fel 'gweithgareddau' yn y Theori Newid. Rydym wedi archwilio pa mor effeithiol y mae'r rhain wedi cael eu darparu ar draws yr holl wasanaethau.

Y prif ganfyddiadau: Rhoi'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ar waith

- Mae'r rhan fwyaf o staff y Rhaglen wedi cael y modiwlau hyfforddi yn ddefnyddiol ar gyfer darparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Ceir rhai meysydd gwasanaeth lle byddai canllawiau a hyfforddiant ychwanegol neu fwy diweddar o fudd, gan gynnwys ar gyfathrebu sy'n ystyriol o drawma a deall iaith a phrosesau cyfreithiol
- Mae canllawiau a thempledi llythyrau mwy diweddar wedi gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- Mae rôl Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn drafftio a sicrhau ansawdd llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr sy'n cael eu drafftio gan gyfreithwyr wedi gwella ansawdd cyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Mae'r diwylliant 'profi a dysgu' wedi arwain at wella effeithlonrwydd, ac mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaethau a ddarperir
- Mae staff y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn glir ynghylch sut i gefnogi anghenion dioddefwyr o safbwynt iaith a chyfieithu, ond prin yw'r prosesau ar gyfer diwallu'r anghenion hygyrchedd ehangach
- Mae partneriaid yr heddlu a gwasanaethau i ddioddefwyr yn cydnabod budd posibl y Rhaglen, ond prin yw eu hymwybyddiaeth o bwrpas a nodau'r Rhaglen neu o'r rhan sydd ganddynt hwy i'w chwarae i'w darparu
- Ceir heriau yn y ffordd y mae'r heddlu'n rhannu manylion cyswllt dioddefwyr â Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac mae hyn yn gallu effeithio ar brydlondeb a chywirdeb cyfathrebiadau â dioddefwyr
- Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn gallu delio â'r galw am wasanaethau ar y cyfan, ond gall rhai elfennau o'r gwasanaeth wynebu heriau gydag adnoddau yn y dyfodol

Diweddarau'r canllawiau a'r hyfforddiant

Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r rhan fwyaf o staff y Rhaglen wedi cael y modiwlau hyfforddi yn ddefnyddiol ar gyfer darparu gwasanaeth o ansawdd uchel

Roedd y rhan fwyaf o staff Gwasanaeth Erlyn y Goron a oedd yn ymwneud â darparu Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn cytuno eu bod wedi cael yr hyfforddiant yr oedd ei angen arnynt i weithio'n effeithiol â dioddefwyr. Mae'r arolwg o staff yn 2026 yn dangos bod 92% (n=12) o staff Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn cytuno eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i weithio'n effeithiol â dioddefwyr, ac roedd 72%

(n=8) o staff Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol ac 83% (n=23) o staff y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) hefyd yn cytuno â'r datganiad hwn. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i'r rhai yn 2025 ac yn awgrymu bod canfyddiadau staff o werth hyfforddiant wedi aros yn gyson dros y cyfnod hwn. Yn ystod grwpiau ffocws, tynnodd staff y Rhaglen sylw at fuddion sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb a rhyngweithiol, gan gynnwys cyfleoedd i gysgodi cydweithwyr mwy profiadol, a ddisgrifiwyd ganddynt fel cyfleoedd perthnasol, addysgiadol a diddorol.

Yn unol â'r canfyddiadau ynghylch mantais hyfforddiant, roedd staff Gwasanaeth Erlyn y Goron ar draws Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddioddefwyr. Yn yr arolygon o staff yn 2025 a 2026, roedd yr holl ymatebwyr o Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn cytuno bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i ddarparu'r gwasanaeth.¹⁴

Y Prif Ganfyddiadau: Ceir rhai meysydd gwasanaeth lle byddai canllawiau a hyfforddiant ychwanegol neu fwy diweddar o fudd, gan gynnwys ar gyfathrebu sy'n ystyriol o drawma a deall iaith a phrosesau cyfreithiol

Er bod y rhan fwyaf o staff y Rhaglen yn teimlo bod hyfforddiant yn fuddiol, roedd rhai'n anghytuno eu bod wedi cael yr hyfforddiant yr oedd ei angen arnynt i ymgysylltu'n effeithiol â dioddefwyr. Yn yr arolwg o staff yn 2026, roedd un aelod o dîm Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a dau aelod o dîm Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn anghytuno eu bod wedi cael yr hyfforddiant yr oedd ei angen arnynt i weithio'n effeithiol â dioddefwyr, tra bo dau aelod o dîm y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Yn ystod grwpiau ffocws, dywedodd y staff sy'n delio â dioddefwyr o Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol y byddai'n fuddiol iddynt gael hyfforddiant ychwanegol. Roedd hyn yn ymwneud â delio â galwadau emosiynol anodd wedi'u teilwra i anghenion carfannau penodol o ddioddefwyr, a chyfathrebiadau sy'n ystyriol o drawma. Dywedodd rhai Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Ychwanegol fod rhywfaint o'r hyfforddiant yn gyffredinol ac yn canolbwyntio ar wasanaeth safonol i gwsmeriaid yn hytrach nag yn hyfforddiant penodol i'w helpu i weithio â dioddefwyr mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma. At hynny, roedd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn disgrifio'r angen am fwy o hyfforddiant ar yr iaith a'r prosesau cyfreithiol. Cyfeiriodd rhai o'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr fod diffyg dealltwriaeth o'r gyfraith yn her i'w gallu i gyfathrebu â dioddefwyr. Gall hyfforddiant ar iaith gyfreithiol helpu staff sy'n delio â dioddefwyr i ymateb yn well i ymholiadau dioddefwyr. Awgrymodd y staff cyfreithiol a'r staff eraill yn y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) y gellid gwella'r hyfforddiant drwy ymdrin ag ymarferoldeb cyfarfodydd cyn-treial, gan gynnwys yr hyn y gellir ei drafod, a chanllawiau ar gymryd nodiadau.

Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr barhau i adolygu a diweddarau hyfforddiant staff yn aml er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion dioddefwyr. Mae staff y Rhaglen ar draws y gwasanaethau'n teimlo'n hyderus ar y cyfan wrth gyfathrebu â

¹⁴ Sylwch nad oes dadansoddiad o ymatebion y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) i arolwg staff 2025 ar gael.

dioddefwyr ac yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i wneud eu gwaith yn dda. Wrth i wasanaethau ymsefydlu, mae'r timau'n nodi anghenion hyfforddi ychwanegol a fyddai'n eu gwneud yn fwy effeithiol, fel gwybodaeth fanylach am brosesau cyfreithiol y mae dioddefwyr yn aml yn holi amdanynt. **[ARG 4]. Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddefnyddio'r adborth gan ddioddefwyr yn yr adroddiad hwn i ddiweddarau'r canllawiau a'r hyfforddiant i staff sy'n delio â dioddefwyr (gan gynnwys cyfreithwyr) ar sut beth yw arfer da mewn cyfathrebu clir ac empathig.** Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith parhaus i roi lle canolog i leisiau dioddefwyr mewn deunyddiau dysgu i staff. **[ARG 5]**

Y Prif Ganfyddiadau: Mae canllawiau a thempledi llythyrau mwy diweddar wedi gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir

Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd y Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr dempledi llythyrau a chanllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer staff Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n drafftio llythyrau Cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr i roi gwybod i ddioddefwyr am benderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae ein dadansoddiad cip-sampl o lythyrau a anfonwyd cyn ac ar ôl diweddarau'r templed a'r canllawiau yn dangos rhywfaint o welliant yn ansawdd y llythyrau. Ar ôl eu hadnewyddu, cynyddodd cyfran y llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr a ddefnyddiai destun empathig heb ei sgriptio. Mae hwn yn newid cadarnhaol ac mae'n dangos bod y templedi a'r canllawiau, ar ôl eu diweddarau, wedi llwyddo i annog staff i gynnwys testun empathig wedi'i deilwra. Bu cynnydd cadarnhaol hefyd yng nghyfran y llythyrau sy'n cynnwys manylion sy'n benodol i'r dioddefwyr; mae hyn yn helpu i sicrhau bod cysylltiad Gwasanaeth Erlyn y Goron â dioddefwyr yn adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol yn unol â nodau'r Rhaglen.

Fodd bynnag, ni welsom ddim newid sylweddol yng nghyfran y llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr a oedd â gwallau testunol yn y llythyrau a gip-samplwyd ac a anfonwyd cyn ac ar ôl diweddarau'r templedi. Yn y sampl sylfaenol, roedd 22% o'r llythyrau'n cynnwys gwallau sillafu, gramadeg, neu atalnodi neu destun o'r templed a oedd heb ei ddileu o'i gymharu â 24% yn y sampl diweddarach. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y templedi diwygiedig yn helpu i wella cywirdeb y testun; mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael cyfathrebu clir a chywir fel un o'r canlyniadau allweddol ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr. Roedd adborth gan staff yr Uned Gyswilt i Ddioddefwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod templedi rhai llythyrau cysylltu a chyfathrebu yn cynnwys gwallau arddull y mae gofyn eu cywiro â llaw i gyd-fynd ag arddull tŷ Gwasanaeth Erlyn y Goron; gallai hynny fod yn cynyddu'r posibilrwydd y ceir gwallau ar draws y llythyrau.

Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddiweddarau'r canllawiau i staff sy'n drafftio gohebiaeth â dioddefwyr, fel bod y staff yn adolygu llythyrau i sicrhau bod y brawddegau'n glir, yn ddealladwy, ac yn ramadegol gywir. Yn ogystal, byddai'n fuddiol ailfformatio'r templedi er mwyn lleihau'r posibilrwydd o gael gwallau a wneir â llaw i'r testun. **[ARG 6]**

[Addasiadau i'r ffordd caiff y gwasanaeth ei weithredu](#)


Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r diwylliant 'profi a dysgu' wedi arwain at wella effeithlonrwydd, ac mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaethau a ddarperir

Mae'r diwylliant 'profi a dysgu' wedi'i wreiddio yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ac mae wedi arwain at arloesi cadarnhaol ac at wella'r gwasanaethau, yn enwedig ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol. Un enghraifft o'r dull hwn yw llwyddiant y broses o gyflwyno'r gwasanaeth negeseuon testun i Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol ym mis Mai 2025 a Pheilot y Gwasanaeth Ychwanegol ym mis Mehefin (Swydd Efrog a Glannau Humber) a mis Gorffennaf 2025 (Mersi-Swydd Gaer). Roedd staff a rhanddeiliaid y Rhaglen yn teimlo bod y gwasanaeth negeseuon testun yn welliant i broses Gwasanaeth Eryl y Goron. Mae'n ymddangos bod negeseuon testun yn gwella ymrwymiad dioddefwyr i wasanaethau'r Rhaglen drwy roi iddynt rybudd ymlaen llaw o alwadau Gwasanaeth Eryl y Goron.

Roedd tîm cyflawni Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn teimlo ei bod yn ymddangos bod anfon negeseuon testun at ddioddefwyr yn gwella ymatebolrwydd dioddefwyr a'i fod yn arbennig o werthfawr o ystyried amharodrwydd rhai dioddefwyr i ateb galwadau os yw'r rhif ffôn yn cael ei guddio. Fe wnaeth un Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig hefyd ganmol y gwasanaeth negeseuon testun i baratoi dioddefwyr am gyswllt gan Wasanaeth Eryl y Goron.

Ategir hyn drwy ddadansoddi'r data o draciwr Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol sy'n dangos bod cyfradd llwyddiant ymgeisiau i wneud ail alwad wedi cynyddu ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth negeseuon testun ym mis Mai 2025 (gweler Siart 6).

Siart 6: Cyfradd llwyddiant ymgeisiau i wneud ail alwad ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol, cyn ac ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth negeseuon testun ym mis Mai 2025



I'r dyfodol, dylai tîm arweinwyr y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddal i wreiddio a hyrwyddo'r diwylliant 'profi a dysgu' ar draws y gwaith o gyflawni'r rhaglen er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd a data o well ansawdd. Yn y tymor hir, bydd hyn yn galluogi inni ddeall yn well effaith a buddion y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr [\[ARG 7\]](#). Mae adborth dioddefwyr yn rhan hanfodol o'r dull 'profi a dysgu', gan ein galluogi i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion dioddefwyr ac yn ymateb iddynt, ac sydd felly'n gallu cyflawni ei phrif nod o ddarparu profiad rhagorol i ddioddefwyr.

Diwallu anghenion hygyrchedd dioddefwyr

Y Prif Ganfyddiadau: Mae staff y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn glir ynghylch sut i gefnogi anghenion dioddefwyr o safbwynt iaith a chyfieithu, ond prin yw'r prosesau ar gyfer diwallu'r anghenion hygyrchedd ehangach

Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod y rhan fwyaf o staff ar draws Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Estynedig (RASSO) yn deall sut mae cyfathrebu a chefnogi dioddefwyr sydd ag anghenion amrywiol, gan gynnwys anghenion iaith a chyfieithu, ac anableddau corfforol ac anableddau dysgu. Er bod holl staff y Rhaglen a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno eu bod yn deall sut i gefnogi dioddefwyr ag anghenion iaith a chyfieithu, dywedodd cyfran is o staff Gwasanaeth Eryl y Goron a oedd yn gweithio mewn rolau tebyg mewn Uned Gyswllt i Ddioddefwyr (a'r tu allan i wasanaethau'r Rhaglen) (76% n=19) eu bod yn deall sut i wneud hynny. Gall hyn awgrymu bod y Rhaglen wedi cyflwyno prosesau cliriach i staff i gefnogi dioddefwyr ag anghenion iaith a chyfieithu, efallai fel rhan o'u sesiynau hyfforddiant a chynefino ar gyfer ymuno â thîm newydd. Yn unol â hyn, canfu ein dadansoddiad cip-sampl o lythrau Dim camau pellach a Cysylltu a chyfathrebu a anfonodd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol lefel uchel o gysondeb o ran eu bod yn cynnwys datganiad hygyrchedd sy'n cynnig gwybodaeth i ddioddefwyr mewn fformat gwahanol.

Fodd bynnag, yn ystod grwpiau ffocws, cyfeiriodd rhai staff at rwystrau rhag bodloni gofynion hygyrchedd dioddefwyr. Yn benodol, roedd staff Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn ansicr ynghylch eu gallu i ddarparu ar gyfer ystod eang o anghenion mynediad posibl. Cyfeiriwyd at Big Word fel un adnodd i ddarparu ar gyfer gofynion cyfieithu dioddefwyr; fel arall, prin oedd y prosesau presennol i gefnogi cyfathrebu hygyrch. Roedd hyn yn bygwth gallu'r timau i sicrhau bod dioddefwyr â gofynion gwahanol yn cael gwasanaeth cyson, o ansawdd uchel.

Yn y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), y tu hwnt i ddarparu ar gyfer dewis dioddefwyr o ran fformat cyfarfodydd cyn-treial, ychydig o brofiad oedd gan y Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr o ddarparu ar gyfer anghenion ehangach a gofynion hygyrchedd. Fodd bynnag, mae gwybodaeth gan ddioddefwyr yn pwysleisio pwysigrwydd ystyriaethau ymarferol ynghylch lleoliad cyfarfodydd, gan gynnwys gwybodaeth am deithio a pharcio hygyrch.

Dylai'r prosesau ar gyfer darparu ar gyfer amrywiol ofynion hygyrchedd dioddefwyr gael eu hadolygu a'u mynegi'n glir wrth y timau sy'n darparu'r Rhaglen. Yn ystod yr ymgysylltu, gwelsom ddiffyg prosesau clir a hawdd eu deall i sicrhau bod Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn gallu diwallu amrywiol anghenion hygyrchedd dioddefwyr yn effeithiol gydol yr achos, gan fygwth gallu'r Rhaglen i sicrhau bod dioddefwyr sydd â gofynion gwahanol yn cael yr un gwasanaeth cyson, o ansawdd uchel. **[ARG 8]**

Cydlynu gyda'r partneriaid

Y Prif Ganfyddiadau: Mae partneriaid yr heddlu a gwasanaethau i ddioddefwyr yn cydnabod budd posibl y Rhaglen, ond prin yw eu hymwybyddiaeth o bwrpas a nodau'r Rhaglen neu o'r

rhan sydd ganddynt hwy i'w darparu

Mae'n hanfodol cydlynu gyda'r partneriaid er mwyn darparu gwasanaeth effeithlon ac o ansawdd uchel. Mewn grwpiau ffocws, roedd partneriaid yr heddlu, gan gynnwys swyddogion rheng flaen a swyddogion Gofal i Dystion, ac eiriolwyr dioddefwyr (ISVAs ac IDVAs) yn cydnabod budd posibl y Rhaglen o ran profiad dioddefwyr a gweithio mewn partneriaeth. Yn ogystal, dywedodd eiriolwyr dioddefwyr a'r heddlu fod rôl y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar eu perthynas â Gwasanaeth Erlyn y Goron drwy ddarparu pwynt cyswllt ymatebol, gydag un heddwys yn awgrymu bod y cyfarfod cyn-treial wedi "taflu goleuni" ar Wasanaeth Erlyn y Goron i'r heddlu'n fwy cyffredinol.

Mae swyddogion yr heddlu, Swyddogion Gofal i Dystion ac eiriolwyr dioddefwyr i gyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi dioddefwyr drwy brosesau Gwasanaeth Erlyn y Goron, gan gynnwys paratoi ar gyfer treial. Fodd bynnag, mae grwpiau ffocws wedi dangos mai prin yw ymwybyddiaeth y partneriaid o bwrpas a nodau'r Rhaglen ac o sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno. Nid oedd Swyddogion Gofal i Dystion yn ymwybodol iawn o waith y Rhaglen nac o sut mae'r rhaglen yn bwriadu cyflawni ei nodau, gan eu bod yn teimlo ei bod yn dyblygu llawer o'u cyswllt nhw â dioddefwyr. Roedd y rhwystredigaeth hon yn deillio o'u barn nad oeddent wedi cael sail resymegol glir dros y dyblygu ymddangosiadol hwn nac esboniad o'r Rhaglen.

Dywedodd Swyddogion Gofal i Dystion fod dioddefwyr, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed ac sy'n cael cyswllt gan nifer o wahanol asiantaethau, mewn perygl o gael eu llethu gan faint o wybodaeth a gânt ac nid oedd rôl a chylch gwaith pob asiantaeth yn glir iddynt. Fodd bynnag, er bod y Swyddogion Gofal i Dystion wedi mynegi rhywfaint o amheuan am y Rhaglen ac yn betrusgar ynghylch cymryd gwaith ychwanegol i gydgyssylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron, roeddent yn teimlo yn y pen draw y gallai'r gwasanaeth fod o fudd i ddioddefwyr. **Mae'r adborth cymysg gan Swyddogion Gofal i Dystion yn dangos yr angen i gyfleu pwrpas a gwerth y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn glir i randdeiliaid er mwyn sicrhau eu hymrwymiad, gan hwyluso cyfathrebu a chydlynu cadarn.** [ARG 9]

Mewn cyfarfodydd cyn-treial, mae gan yr heddlu, Cyngorwyr annibynnol ar drais rhywiol a Chyngorwyr annibynnol ar drais domestig ran werthfawr i'w chwarae fel presenoldeb cyfarwydd i helpu dioddefwyr i ofyn cwestiynau a gwneud yn siŵr eu bod yn cael y gorau o'r cyfarfod. Fodd bynnag, dywedodd nifer o Swyddogion heddlu cyfrifol nad oeddent yn teimlo'n barod i fynychu cyfarfodydd cyn-treial pan gyflwynwyd y cyfarfodydd am y tro cyntaf ac nad oeddent yn glir ynghylch beth i'w ddisgwyl na sut orau i helpu'r dioddefwr i fynychu. Yn benodol, nid oeddent wedi derbyn gwybodaeth am bwrpas na strwythur cyfarfodydd cyn-treial ymlaen llaw. Yn yr un modd, eglurodd un Cyngorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol mai'r ddioddefwyr yn aml yn hytrach na'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a oedd yn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd cyn-treial. Mae hyn yn golygu nad yw Cyngorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol bob amser yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer y cyfarfod, a bod hynny'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y dioddefwr i roi gwybod i'r Cyngorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol am y cyfarfod.

Mae'n bosibl bod y diffyg ymwybyddiaeth o Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol i'w ddisgwyl ac y ceir gwell cyfle i gyfathrebu'n glir ac yn eang â'r partneriaid pan

gyflwynir y gwasanaeth yn genedlaethol yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r diffyg ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), sy'n cael ei ddarparu'n genedlaethol ac sy'n aml yn gofyn i bartneriaid fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyn-treial, yn ei gwneud hi'n anodd darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddioddefwyr. Er mwyn sicrhau bod amser partneriaid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i baratoi a chefnogi dioddefwyr i fynychu cyfarfodydd, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu'r negeseuon i bartneriaid ynghylch pwrpas cyfarfodydd cyn-treial a rôl ddisgwyliedig y partneriaid ynddynt. Dylid mynegi hyn wrth yr heddluoedd a'r gwasanaethau lleol ar lefel strategol, yn ogystal ag yn uniongyrchol wrth yr ymarferwyr rheng flaen pan drefnir cyfarfodydd. **[ARG 10]**

Y Prif Ganfyddiadau: Ceir heriau yn y ffordd y mae'r heddlu'n rhannu manylion cyswllt dioddefwyr â Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac mae hyn yn gallu effeithio ar brydlondeb a chywirdeb cyfathrebiadau â dioddefwyr

Mae'n hanfodol bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn sicrhau cyfathrebu amserol, cywir a diogel â dioddefwyr. Mae'r heddlu'n cadw gwybodaeth gyswllt dioddefwyr, gan gynnwys y dull cysylltu sydd orau ganddynt, ac yn ei rhannu â Gwasanaeth Erlyn y Goron pan fydd ffeil yr achos yn cael ei throsglwyddo. Bydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr wedyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gysylltu â dioddefwyr yn uniongyrchol am benderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron ac i drefnu cyfarfodydd. Fodd bynnag, mewn grwpiau ffocws, mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr wedi dweud bod gwybodaeth gyswllt dioddefwyr yn aml yn anghyflawn neu ar goll yn y ffeiliau y mae'r heddlu yn eu rhannu. Gall dioddefwyr orfod aros yn hir am gyfathrebiadau ac fe allai hynny beryglu'r sefyllfa os nad yw'n hysbys beth yw'r dull cysylltu y mae dioddefwyr yn ei ffafrio.

Cyfeiriodd staff Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Estynedig at wahaniaethau yn y ffordd y mae'r heddlu'n cofnodi gwybodaeth am yr achos; roedd hyn yn amrywio fesul swyddog heddlu unigol a fesul ardal. Roedd hyn yn golygu ei bod yn cymryd llawer o amser i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ddod o hyd i wybodaeth am yr achos. Gallai systemau rheoli data anghydnaws wneud yr anawsterau hyn yn waeth. Dywedodd un Swyddog Gofal i Dystion wrthym ei fod yn credu bod y System Rheoli Tystion a ddefnyddia'r heddlu yn dal mwy o ddata na'r System Rheoli Achosion a ddefnyddia Gwasanaeth Erlyn y Goron, sy'n golygu efallai na fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol am achos. Teimlent fod hyn yn arwain at aneffeithlonrwydd, gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cysylltu'n aml â Swyddogion Gofal i Dystion i gasglu gwybodaeth a oedd ar goll o'r System Rheoli Achosion. Gan eu bod yn delio â nifer fawr o achosion, roedd y cyfathrebu hwn yn ychwanegiad mawr at eu llwyth gwaith.


Er mwyn gallu trosglwyddo gwybodaeth yn fwy cywir ac effeithlon, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr weithio'n agos gydag arweinwyr yr heddlu i sicrhau bod y wybodaeth y mae'r Wasanaeth Erlyn y Goron ei hangen yn cael ei diffinio'n glir, ac i egluro a chytuno ar sut i gofnodi a rhannu data. I gefnogi'r sgysiau hyn ag arweinwyr yr heddlu, dylai'r Rhaglen gasglu a monitro ansawdd y data cyswllt dioddefwyr y mae'r heddlu yn ei rhannu er mwyn deall maint y broblem yn well a darparu tystiolaeth glir i gydweithwyr plismona ar effaith cael gwybodaeth sy'n hwyr neu'n anghywir. **[ARG 11]**

Rheoli'r galw

Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr yn gallu delio â'r galw am wasanaethau ar y cyfan, ond gallai rhai elfennau o'r gwasanaeth wynebu heriau gydag adnoddau yn y dyfodol

Er mis Gorffennaf 2025, mae tîm Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol wedi llwyddo i gysylltu â rhwng 84% a 95% o ddiodefwyr sydd o fewn cwrpas y gwasanaeth. Rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Ionawr 2026, llwyddodd Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol i gysylltu â chyfran debyg o ddiodefwyr sydd o fewn cwrpas y gwasanaeth, sy'n gynnydd cyson er haf 2025.

Siart 7: Cyfran (%) achosion Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, sydd o fewn y cwrpas, pan gysylltwyd â'r diodefwyr yn llwyddiannus, Mehefin 2025 - Ionawr 2026¹⁵



Ceir cryn amrywiaeth mewn amgyffredion o'r capasiti sefydliadol ar draws gwasanaethau'r Rhaglen. Mae'r arolwg o staff yn 2026 yn dangos, ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol, fod 77% (n=10) yn cytuno bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron y capasiti angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddiodefwyr, gyda 23% (n=3) 'yn anghytuno ychydig' â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, ym Mheilot y Gwasanaeth Ychwanegol, dim ond 30% (n=4) sy'n cytuno bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron y gallu i ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddiodefwyr, tra bo 54% (n=7) yn anghytuno ychydig a 15% (n=2) yn anghytuno'n gryf. Yn yr un modd, yn y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), mae 38% (n=10) yn cytuno bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron y gallu i ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddiodefwyr, mae 22% (n=6) yn anghytuno ychydig, 26% (n=7) yn anghytuno'n gryf, a 15% (n=4) yn ansicr.

Yn dilyn yr un duedd, mae gan staff Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol amgyffrediad mwy cadarnhaol o'u gallu personol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddiodefwyr na staff ym Mheilot y Gwasanaeth Ychwanegol neu'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO). Fodd bynnag, mae 30% (n=3) o staff Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn anghytuno bod ganddynt ddigon o amser i ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddiodefwyr.

¹⁵ Ni chofnodwyd data ym mis Mehefin 2025 ar gyfer Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol.

Mewn grwpiau ffocws, gwelwyd amrywiaeth tebyg yn amgyffrediad y staff o'r capasiti ar draws y timau darparu. Yn nhîm Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol ac un o'r meysydd lle mae Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn cael ei ddarparu, dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn gallu delio â'r galw. Fodd bynnag, yn yr ardal arall lle cyflwynir Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, dywedodd y tîm eu bod yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o adnoddau, ac nad oedd y dyraniadau yn adlewyrchu'n ddigonol yr amser sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth.¹⁶ Un o'r prif heriau, yn ôl aelodau staff Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol, yw natur gyfnewidiol y galw sy'n gallu amrywio'n wythnosol neu hyd yn oed yn ddyddiol. Mae ffactorau allanol, fel gweithgarwch plismona a'r gwahanol fathau o gyfathrebiadau y mae'r tîm yn eu cyhoeddi, yn dylanwadu i raddau helaeth ar yr amrywioldeb hwn. Er enghraifft, mae cyhoeddi penderfyniad Dim camau pellach yn gofyn am fwy o amser paratoi a chyflawni na diweddariadau safonol ar achosion, gan roi straen ychwanegol ar gapasiti staff yn ystod cyfnodau o alw mawr. Yn benodol, yn yr ardal lle'r oedd tîm Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn teimlo eu bod yn gallu delio â'r galw, mae'r tîm yn ymroddedig i ddarparu'r Rhaglen. Fodd bynnag, yn yr ardal lle'r oedd tîm Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn teimlo nad oedd digon o adnoddau, mae'r tîm yn cael ei uno â'r Uned Gyswllt i Ddiodefwyr bresennol ac mae felly'n delio â darparu'r Rhaglen ochr yn ochr â swyddogaethau parhaus yr Uned Gyswllt i Ddiodefwyr. Gall y modelau darparu gwahanol hyn esbonio'r gwahaniaethau mewn capasiti rhwng dwy ardal Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol.

Yn y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), teimlai'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr mai trefnu a chynnal cyfarfodydd cyn-treial oedd y brif agwedd a oedd yn her i'r adnoddau. Teimlai nifer o Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr fod cyfarfodydd cyn-treial yn cael eu cynnig yn rhy gynnar, gan greu gormod o lwyth gwaith i'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i drefnu nifer fawr o gyfarfodydd, hyd yn oed pan fydd dyddiad y treial ymhell yn y dyfodol. Teimlai un Swyddog Cyswllt Dioddefwyr na fyddai'n gallu bodloni lefel y galw am gyfarfodydd cyn-treial yn ei ardal cyn bo hir, gyda cheisiadau'n cael eu cyflwyno fel hyn, ac felly na fyddai'n gallu bodloni'r gofynion o dan y Cod Dioddefwyr. Mae data oddi wrth traciwr cyfarfodydd cyn-treial y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn dangos y ceir amrywiad sylweddol yn yr amser cyfartalog rhwng pryd cynhelir cyfarfodydd cyn-treial a phryd cynhelir neu y trefnwyd i gynnal y treial ar draws ardaloedd¹⁷. Mae'r hyd cyfartalog hwn yn amrywio o tua mis a hanner mewn rhai ardaloedd i tua wyth mis mewn ardaloedd eraill.

Hefyd, dywedodd y Rheolwr Cyswllt Dioddefwyr, mewn achosion lle mae diodefwyr yn mynychu cyfarfod cyn-treial ymhell cyn dyddiad eu treial, fod "90% o'r achosion hynny'n cael cyfarfod ychwanegol" yn nes at y treial. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau sydd eisoes yn brin ac yn golygu bod llai o gyfarfodydd ar gael. Awgrymodd Swyddog cyswllt diodefwyr arall y byddai canllawiau sy'n cyfyngu ar nifer y cyfarfodydd cyn-treial posibl yn eu helpu i gydbwyso anghenion diodefwyr â'r heriau gydag adnoddau. Cofiai'r Swyddog cyswllt diodefwyr achos lle'r oedd tri chyfarfod cyn-treial wedi'u cynnal gyda diodefwyr a bod pedwerydd cyfarfod wedi cael ei gynnig. Roedd hyn yn teimlo'n anghymesur ac yn anodd darparu ar eu cyfer ochr yn ochr â cheisiadau am

¹⁶ Efallai y ceir buddion ehangach i'r model hwn o Beilot y Gwasanaeth Ychwanegol na chawsant eu cofnodi drwy'r arolygon neu a oedd y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn.

¹⁷Yn y data, mae rhai o'r dyddiadau ar gyfer cynnal y treial yn y gorffennol ac mae rhai yn y dyfodol. Felly, rydym wedi dehongli hyn fel pan fydd y treial wedi cael ei gynnal neu pan fydd y treial wedi'i drefnu. Sylwch ar gyfyngiadau'r data ar gyfarfodydd cyn-treial fel y nodir yn yr Adroddiad Technegol. Felly dylid trin y canfyddiadau hyn â gofal.

gyfarfodydd gan ddioddefwyr eraill. Mewn achosion fel hyn, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr geisio deall y rhesymau pam y gofynnir am nifer o gyfarfodydd, ac a yw hyn oherwydd bod gan ddioddefwyr gwestiynau gwahanol ar wahanol gamau, oherwydd newidiadau yn amseroedd aros yr achos neu'r treial, neu oherwydd na chafodd gwybodaeth ei hegluro'n glir mewn cyfarfodydd cynharach. [\[ARG 12\]](#)

Dywedodd Swyddogion cyswllt dioddefwyr y byddent yn gwerthfawrogi canllawiau clir ynghylch sawl gwaith y dylid mynd ar ôl dioddefwyr sy'n gwrthod neu'n methu â mynychu cyfarfodydd cyn-treial a drefnwyd. Mewn rhai ardaloedd, pan fydd dioddefwr yn methu â mynychu cyfarfod ddwywaith, nid yw'r Swyddog yn ceisio aildrefnu'r cyfarfod eto. Fodd bynnag, mewn ardal arall, disgrifiodd un Swyddog aildrefnu cyfarfod bum neu chwe gwaith gan nad oedd y dioddefwr wedi mynychu. Awgrymodd un Rheolwr cyswllt dioddefwyr fod y templedi newydd ar gyfer gwahoddiadau i gyfarfodydd cyn-treial yn gwneud y mater hwn yn waeth drwy annog Swyddogion cyswllt dioddefwyr i anfon 'pwt' at ddioddefwyr sydd wedi gwrthod cyfarfod cyn-treial sawl gwaith. Teimlai'r Rheolwr Cyswllt Dioddefwyr fod y 'pwtiadau' hyn yn gwaethygu'r pwysau ar adnoddau, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i ddioddefwyr a oedd wedi mynegi diddordeb mewn dod i gyfarfod.

Yng ngoleuni'r amrywiad presennol ar draws ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron o ran pryd mae cyfarfodydd cyn-treial yn cael eu cynnig a sut ymdrinnir â'r ceisiadau, ochr yn ochr â'r pryderon a goda Swyddogion cyswllt dioddefwyr a Rheolwyr cyswllt dioddefwyr ynghylch y problemau ag adnoddau i'r dyfodol o safbwynt y cyfarfodydd hyn, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr gydlynw â Gofal i Dystion i adolygu pa wybodaeth a diweddariadau y mae dioddefwyr yn eu cael ar yr achos yn dilyn y penderfyniad ynghylch cyhuddo a chyn y treial i lywio'r gwaith o gynllunio pryd mae diweddariadau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn fwyaf buddiol i ddioddefwyr. [\[ARG 13\]](#)

Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr sicrhau hefyd fod ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn y canllawiau ar gynnig cyfarfodydd cyn-treial drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion a dewisiadau dioddefwyr o ran amser a lleoliad y cyfarfodydd. Dylai'r Rhaglen ystyried a oes angen capasiti ychwanegol ar ardaloedd i gynnal y cyfarfodydd hyn yn unol ag anghenion dioddefwyr. [\[ARG 14\]](#)

Pennod 3: Effaith y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr

Mae'r adran hon yn trafod effaith y Rhaglen ar effeithlonrwydd Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr. Mae'r dystiolaeth a'r ddealltwriaeth sy'n sail i Theori Newid y Rhaglen yn amlinellu sut gall gwella profiad dioddefwyr gael effaith gadarnhaol ar lif a swyddogaeth y System Cyfiawnder Troseddol ehangach drwy roi arbedion effeithlonrwydd i sefydliadau a lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr. Mae'r adran isod yn edrych ar ganfyddiadau cynnar ynghylch sut mae'r Rhaglen yn cyflawni hyn.

Y Prif Ganfyddiadau: effaith y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr

- Mae'r staff yn teimlo bod ganddynt yr adnoddau a'r hyfforddiant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n hanfodol i ddarparu'r Rhaglen yn effeithlon
- Mae bron pob Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn ymwybodol o'r templedi llythyrau i'w helpu i baratoi cyfathrebiadau o ansawdd uchel â dioddefwyr, ond roeddent yn llai ymwybodol o adnoddau ehangach i'w helpu i gyfathrebu â dioddefwyr
- Mae cael Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i arwain cyfathrebiadau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr yn hytrach na chyfreithwyr yn arbed £153,000 y flwyddyn i beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol
- Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod nifer y cwynion gan ddioddefwyr a ddaeth i law Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol ychydig yn is nag y byddent heb y gwasanaethau
- Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr, er ei bod yn rhy gynnar i fod yn hyderus yn y canfyddiadau hyn
- Nid oes digon o amser wedi mynd heibio i ganiatáu inni wneud asesiad cadarn o'r nifer sy'n tynnu'n ôl drwy Beilot y Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) oherwydd yr amser sydd ei angen i achosion basio'n llawn drwy'r system
- Mae timau darparu'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr a rhai rhanddeiliaid allanol yn credu bod gan y Rhaglen y potensial i helpu dioddefwyr i barhau â'r broses cyfiawnder troseddol

Blaenoriaethu profiad dioddefwyr

Mae'r Rhaglen yn gweithredu o fewn System Cyfiawnder Troseddol a fwriadwyd yn wreiddiol i fwrw achosion ymlaen yn gyfreithlon, ymchwilio i droseddau, a chynnal rheolau'r gyfraith, yn hytrach na rhoi blaenoriaeth i roi profiad cadarnhaol i ddioddefwyr. Am y rheswm hwn, mae'r system yn mesur perfformiad drwy amseroldeb, ôl-groniadau a chyfraddau euogfarnu. Mae newidiadau mewn polisi cenedlaethol a sefydliadol tuag at ddiwallu anghenion dioddefwyr wedi bod yn sail i fentrau fel y Cod Dioddefwyr, rolau cyswllt penodol, a mesurau arbennig yn y llys. Mae'r newid mewn ffocws tuag at brofiad dioddefwyr, a mesurau a mentrau lles, yn anodd eu gweithredu a'u cynnal, yn enwedig wrth i asiantaethau ymdopi â chyfyngiadau cyllido a mwy o alw.

Adlewyrchir hyn yn yr adborth a gawsom yn ein gwerthusiad o Safonau Gwasanaethau i Ddioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron. Trafododd staff Gwasanaeth Erlyn y Goron (cyfreithwyr, swyddogion

paragyfreithiol, Swyddogion a Rheolwyr Cyswllt Dioddefwyr) a phartneriaid allanol (llunwyr polisïau ac ymarferwyr sy'n delio â dioddefwyr) yr heriau roeddent yn eu hwynebu wrth gefnogi dioddefwyr mewn system gymhleth sy'n canolbwyntio ar ddiffynyddion.

“Yr hyn rydych chi eisiau ei wneud yw rhoi sicrwydd i bobl y bydd y gwasanaeth yn sensitif ac yn ymatebol iddyn nhw pan nad yw hynny'n wir. Drwyddi draw, nid yw'r system yn canolbwyntio ar y dioddefwr. Mae'n eithaf caled. Felly dyna'r amgylchedd neu'r cyd-destun y mae'r Safonau [Gwasanaethau i Ddioddefwyr] yn rhan ohono. [...] Dydw i ddim yn gwybod sut i ddelio â hynny. Nid oes gan Wasanaeth Erlyn y Goron y gallu i wneud hynny. [...] Mae'n broblem ar draws y system gyfan ac efallai bod angen gosod y safonau yn y cyd-destun hwnnw' 'Dyma beth mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud; dyma beth arall sydd angen digwydd'. (Rhanddeiliad allanol o'r sector gwirfoddol a chymunedol)

Y Prif Ganfyddiadau: Mae buddsoddi mewn gwella profiad dioddefwyr yn ganolog i greu gwell system cyfiawnder troseddol

Mae'r heriau hyn yn golygu bod datblygu'r Rhaglen yn barhaus ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2023 yn arbennig o bwysig. Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn adlewyrchu ymrwymiad Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddysgu ac addasu er mwyn gwella profiad a lles dioddefwyr yn barhaus. Wrth wneud hynny, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos awydd i ddeall sut gellir gwreiddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr ac i gasglu tystiolaeth ar sut i sicrhau buddion ehangach i'r System Cyfiawnder Troseddol gyfan.

Gwella hynt achosion ac effeithlonrwydd sefydliadol

Mae oedi hir a phrosesau cyfreithiol ansicr, sy'n aml yn deillio o ôl-groniadau ac aneffeithlonrwydd yn y system, yn cael eu cydnabod yn eang¹⁸ fel ffactorau sy'n gwneud i ddioddefwyr benderfynu peidio ag ymrwymo i'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr wedi ymrwymo i wella profiad dioddefwyr drwy sicrhau bod sefydliadau mor effeithlon â phosibl i wella hynt achosion. Fe wnaeth ein gwerthusiad fesur buddion effeithlonrwydd drwy leihau costau staff fel a ganlyn:


- **Sicrhau bod staff yn gallu darparu'r gwasanaeth yn effeithlon:** mae'r Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr yn rhoi'r adnoddau a'r arweiniad sydd eu hangen ar staff i wneud eu gwaith yn effeithiol.
- **Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau gan y rolau mwyaf priodol ar gyfer y gwaith:** roedd y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddrafftio llythyrau cysylltu a chyfathrebu ar Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn hytrach nag ar erlynwyr.
- **Lleihau'r amser anghynhyrchiol sy'n cael ei dreulio ar gwynion dioddefwyr:** gallai gwella profiad dioddefwyr leihau nifer y dioddefwyr sy'n gwneud cwyn.

¹⁸ Gwasanaeth Erlyn y Goron. (2022). Diweddariad ar y Strategaeth Trais Rhywiol. [URL](#).

Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r staff yn teimlo bod ganddynt yr adnoddau a'r hyfforddiant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n hanfodol i ddarparu'r Rhaglen yn effeithlon

Mae trawsnewid gwasanaeth a chyflawni hyn yn effeithlon yn rhoi pwysau mawr ar staff, ac mae felly'n hanfodol i Wasanaeth Erlyn y Goron fuddsoddi mewn datblygu sgiliau staff. Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, mae arolwg 2026 yn dangos bod yr holl staff sy'n darparu gwasanaeth dan y Rhaglen yn cytuno bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau iawn ar gyfer y rôl, ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol i ymgysylltu'n effeithiol â dioddefwyr.


Siart 8: Cyfran yr ymatebion gan Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i ddatganiadau ynghylch i ba raddau y mae ganddynt yr adnoddau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, 2026



Y Prif Ganfyddiadau: Mae bron pob Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn ymwybodol o'r templedi llythyrau y gallant eu defnyddio i'w helpu i baratoi cyfathrebiadau o ansawdd uchel â dioddefwyr, ond roeddent yn llai ymwybodol o adnoddau ehangach i'w helpu i gyfathrebu â dioddefwyr


Er mwyn ysgogi datblygiadau arloesol a threialu ffyrdd newydd sy'n cryfhau cyswllt Gwasanaeth Erlyn y Goron â dioddefwyr a staff cymorth, mae'r Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr wedi creu templedi, canllawiau a hyfforddiant i wella gallu staff (gweler Pennod 2). Yn arolwg staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn 2026, roedd bron pob un o'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a ymatebodd (98% - 47 o 48) ym mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol ac yn y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn ymwybodol o'r templedi llythyrau dioddefwyr. Fodd bynnag, ceid llai o ymwybyddiaeth ymysg Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr o ganllawiau ac adnoddau cyfathrebu cyffredinol â dioddefwyr, sgriptiau ffôn, a thempledi e-bost. Fel y crybwyllir ym Mhennod 2, mae'r Rhaglen yn profi adnodd drafftio gohebiaeth, gyda'r nod o wella ansawdd a sicrhau effeithlonrwydd wrth ddrafftio llythyrau a negeseuon e-bost. Megis dechrau cael ei ddatblygu mae'r adnodd, a bwriedir cynnal gwerthusiad ohono er mwyn gallu deall ei effaith wrth i'r Rhaglen aeddfedu.

Siart 9: Cyfran Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Cyffredinol, y Gwasanaeth Ychwanegol a Gwasanaeth Ychwanegol RASSO sy'n ymwybodol o adnoddau mewnol Gwasanaeth Erlyn y Goron a fwriedir i wella safon y cyfathrebu â dioddefwyr, 2026 n=48



Dangosodd arolwg staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn 2026 fod Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr, ar y cyfan, yn llawn cymhelliant yn eu swyddi. Maent yn falch o'u gwaith ac yn ei fwynhau, ac yn cael eu cymell i'w gyflawni i safon uchel. Fodd bynnag, mae llai ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cydnabod a'u gwobrwyo am eu gwaith gyda dioddefwyr.

Siart 10: Cyfran yr ymatebion gan Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i ddatganiadau am fodlonrwydd yn eu rôl gyda dioddefwyr, 2026



Dylai uwch reolwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron gryfhau'r ffordd maent yn cyfleu pwysigrwydd rôl Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i gyflawni blaenoriaethau'r sefydliad gan fod rhai staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi na'u cydnabod. Mae'n bwysig rhoi sylw i hyn er mwyn cyflawni'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn llwyddiannus. Staff yw caffaeliad pwysicaf Gwasanaeth Erlyn y Goron i wella ei wasanaeth, felly mae sicrhau bod staff yn cydnabod eu gwerth yng nghenhadaeth gyffredinol Gwasanaeth Erlyn y Goron yn allweddol i alluogi llwyddiant hirdymor y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr [ARG 15]. Mae astudiaethau academiaidd wedi dangos y ceir hefyd gysylltiad rhwng hapusrwydd staff yn y gwaith a chynhyrchiant, felly gallai gwella nifer y staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi hefyd arwain at fuddion effeithlonrwydd i Wasanaeth Erlyn y Goron a helpu i leihau'r problemau â chapasiti.

Y Prif Ganfyddiadau: Mae cael Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i ddrafftio cyfathrebiadau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr yn hytrach na chyfreithwyr yn arbed £153,000 y flwyddyn i beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol

Ym Mheilol y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol, mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn gyfrifol am baratoi ac anfon llythyrau cysylltu a chyfathrebu at ddioddefwyr, yn hytrach nag erlynwyr sy'n cwblhau'r dasg hon mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot. Mae rôl Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn drafftio cyfathrebiadau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr nid yn

unig wedi gwella ansawdd cyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron a anfonir o dan y Peilot, ond mae hefyd yn fwy cost-effeithiol.

Roedd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol wedi cyflwyno'r model hwn ar sail tystiolaeth bod llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr a ddrafftiodd gan erlynwyr yn aml o ansawdd isel a ddim yn dangos empathi¹⁹. Mae'r dull newydd yn caniatáu i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr roi esboniadau o ansawdd uwch i ddioddefwyr am benderfyniadau, wedi'u hategu gan hyfforddiant, arweiniad a thempledi a ddarperir gan y Ganolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr. Roedd erlynwyr yn gadarnhaol ynghylch gallu Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i fynegi gwybodaeth gyfreithiol yn glir a sicrhau nad yw dioddefwyr yn cael eu llethu gan wybodaeth.

Mae'r dull hwn hefyd yn galluogi i lwythi gwaith fod yn fwy cytbwys ar draws rolau. Mae erlynwyr wedi dweud nad oes ganddynt lawer o allu ychwanegol i ddrafftio llythyrau sy'n empathig, yn glir ac yn cynnwys llai o jargon. Er enghraifft, o'r 215 o erlynwyr a staff cyfreithiol a ymatebodd i'n harolwg staff yn 2026, roedd 44% o erlynwyr a rheolwyr cyfreithiol yn cytuno y gallant ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddioddefwyr heb beryglu rhannau eraill o'u gwaith achos, a dim ond 25% a gytunai fod ganddynt ddigon o amser i wneud hynny.

Er bod yr amser a gymerir i baratoi a dosbarthu'r cyfathrebiadau cysylltu a chyfathrebu yr un fath ni waeth pa rôl sy'n cyflawni'r gwaith, mae'r gost yn is pan fydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn, gan fod ganddynt fwy o gapasiti penodol i ganolbwyntio ar y dasg ac maent yn llai costus oherwydd eu gradd. Mae hyn yn arbed £153,000 y flwyddyn i Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol o'i gymharu â phe bai erlynwyr yn drafftio'r llythyrau. Pe bai'r model hwn yn cael ei gyflwyno ar gyfer llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr yn genedlaethol, byddai'r arbediad blynyddol hwn yn cynyddu (mae dadansoddiad o'r budd a ragwelir wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Technegol).

¹⁹[Mewn arolygiad ar thema gan HMCSI yn 2018](#) gwelwyd problemau gydag amseroldeb, ansawdd a diffyg empathi mewn cyfathrebiadau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr. [Yn 2020, cydnabu HMCSI ymdrechion](#) Gwasanaeth Erlyn y Goron i wella ond dywedodd mai ychydig o welliant a welsant yn ansawdd y llythyrau a anfonwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron drwyddynt draw. [Yn 2022, canfu ymchwili Crest Advisory](#) fod 45% o'r dioddefwyr a arolygwyd yn dweud bod cyfathrebu Gwasanaeth Erlyn y Goron "ddim yn amserol o gwbl", a dywedodd 51% o'r dioddefwyr a arolygwyd fod cyfathrebu fod cyfathrebu Gwasanaeth Erlyn y Goron "ddim yn empathig o gwbl".

Tabl 2: Buddion effeithlonrwydd Cysylltu a Chyfathrebu â Dioddefwyr

Budd Effeithlonrwydd	Gwasanaeth y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr	Newid yn y Gwasanaeth	Arbedion Costau
Newidiadau yn strwythur darparu cyfathrebiadau Cysylltu a Chyfathrebu	Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	Hanner yr amser mae'r gohebiaethau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr y mae cyfreithwyr yn delio â nhw yn symud i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Cyffredinol	£153K
	Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	Hanner yr amser mae'r gohebiaethau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr y mae cyfreithwyr yn delio â nhw yn symud i Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Ychwanegol	£0.4K
	Cyfanswm		£153K

Nodyn dehongli:

Cyfrifir y buddion yn Nhabl 2 drwy luosi'r amser a gymerir i gwblhau'r tasgau a chost yr amser hwnnw i Wasanaeth Erllyn y Goron ar sail costau staff fesul awr (gweler yr Adroddiad Technegol am ragor o fanylion).

Mae'r arbedion cost a gynhyrchir gan Beilot y Gwasanaeth Ychwanegol yn is na'r rhai a gynhyrchir gan Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol oherwydd bod tîm y Gwasanaeth Cyffredinol yn gwneud llawer mwy o gyfathrebiadau cysylltu a chyfathrebu na thîm y Gwasanaeth Ychwanegol.

Er bod gan y dull hwn y potensial i wella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau, canfu ein gwaith gyda staff Gwasanaeth Erllyn y Goron nad yw'r broses yn esgor ar y buddion llawn eto. Dywedodd erlynwyr yn ardaloedd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol nad yw eu dull o baratoi llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr wedi newid llawer yn ymarferol ers i'r cyfrifoldeb dros eu drafftio a'u hanfon symud at Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn y gwasanaethau peilot.

Rhannodd y Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol brofiadau tebyg. Yn gyffredinol, maent yn adrodd eu bod yn gweithio'n dda gydag erlynwyr sy'n agored i ddelio ag ymholiadau am benderfyniadau cyfreithiol a therminoleg. Fodd bynnag, roedd rhai Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn dal i gael trafferth deall penderfyniadau cyfreithiol wrth ddrafftio'r llythyr, a dywedasant y byddent yn teimlo'n anghyfforddus yn anfon gwybodaeth bwysig, a allai beri gofid yn aml, at ddioddefwyr heb fod yn hyderus eu bod yn ei deall eu hunain. Er bod cwestiynau a cheisiadau am eglurhad gan Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr am benderfyniadau cyfreithiol yn rhoi pwysau gwaith yn ôl ar erlynwyr, mae'n rhan bwysig o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

I gefnogi proses fwy effeithlon ar gyfer drafftio a danfon llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr, dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr egluro priod rolau Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ac erlynwyr a'r hyn a ddisgwyli'r ohonynt wrth ddrafftio a sicrhau ansawdd y llythyrau, gan

ganolbwyntio ar ble gall pob rôl ychwanegu'r gwerth mwyaf [ARG 16]. Dylid cydbwysu hyn ag ystyried yr adnoddau sydd eu hangen ar wahanol rolau i gwblhau tasgau ac arbedion effeithlonrwydd posibl, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant neu arweiniad ychwanegol a fyddai'n galluogi Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i ddeall a mynegi terminoleg a phenderfyniadau cyfreithiol yn well. Yn y pen draw, byddai hyn yn caniatáu i'r Rhaglen weld y buddion llawn a fwriadwyd, sef gwell effeithlonrwydd ac achosion yn mynd rhagddynt ynghynt.

Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod llai o gwynion gan ddioddefwyr wedi dod i law ardaloedd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol nag a fyddai heb y gwasanaethau.

Fe wnaethom asesu effaith Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol ar nifer y cwynion a wnaed gan ddioddefwyr, gan ddefnyddio dull dadansoddi a elwir yn fodel rheoli synthetig cyffredinol (gweler yr Adroddiad Technegol am ragor o fanylion). Mae ein dadansoddiad yn amcangyfrif bod y gwasanaethau peilot yn derbyn 1.01 yn llai o gwynion bob mis fesul Ardal beilot nag y byddid yn ei ddisgwyl pe na bai'r gwasanaethau peilot wedi cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cyfateb i 16% yn llai o gwynion na'r disgwyl heb y Rhaglen - derbyniwyd 93 o gwynion mewn gwirionedd rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Hydref 2025 yn yr ardaloedd peilot o'i gymharu â 111 o gwynion a fyddai i'w disgwyl heb y Rhaglen.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r canlyniadau hyn yn ystadegol arwyddocaol (gwerth-p = 0.08) a gallai'r gostyngiad a welwyd mewn cwynion fod o ganlyniad i amrywiad naturiol yn nifer y cwynion yn hytrach nag o ganlyniad uniongyrchol i'r Rhaglen.

Fe wnaethon ni hefyd brofi faint o amser mae'n ei gymryd i staff Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol gwblhau'r tasgau dyddiol. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn o faint o amser staff sy'n cael ei dreulio yn delio â chwynion, a chost y staff hyn fesul awr, mae gostyngiad o 1.01 y mis fesul Ardal yn cyfateb i arbediad o £400 y flwyddyn yn yr ardaloedd peilot. Er mai arbediad amcangyfrifedig bach yw hwn hyd yma, pe bai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn cael ei chyflwyno'n genedlaethol, gallai'r arbediad hwn gynyddu (mae dadansoddiad o'r buddion a ragwelir wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Technegol).

Tabl 3: Buddion effeithlonrwydd

Budd Effeithlonrwydd	Gwasanaeth y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr	Newid yn y Gwasanaeth	Arbedion Costau
Newid yn faint o amser staff sy'n cael ei dreulio yn ymateb i gwynion	Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol	- 0.56	£200
	Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol	- 0.55	£200
	Cyfanswm	£400	

Nodyn dehongli:
Cyfrifir y buddion yn Nhabl 3 drwy luosi (gweler yr Adroddiad Technegol am fwy o fanylion).:

- Nifer y cwynion;

- Yr oriau a gymerir ar un gŵyn fesul rhanbarth bob mis (*wedi'i fesur drwy'r data a gasglwyd yn ein gwerthusiad - adnodd TTR*);
- Nifer y misoedd yn y flwyddyn;
- Pris cysgodol o £29.47²⁰

Fel yr archwilir ym Mhenodau 1 a 2, sefydlwyd y Rhaglen i wella safon y gwasanaeth y mae dioddefwyr yn ei gael gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac i sicrhau bod eu hanghenion cyfathrebu'n cael eu diwallu'n well. Dylai hyn, mewn egwyddor, arwain at fod llai o ddioddefwyr yn teimlo'r angen i wneud cwyn ffurfiol. Gallai hyn hefyd gynyddu capasiti drwy leihau'r galw ar Wasanaeth Erlyn y Goron yn sgil cyfathrebu nad yw'n ymwneud ag achosion.

Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn cydnabod y ceir adegau pan fydd yn syrthio'n brin o'r safonau hyn a'i fod felly yn rhoi cyfle i ddioddefwyr wneud cwyn. Gan fod Gwasanaeth Erlyn y Goron bellach yn cyfathrebu â dioddefwyr yn amlach drwy'r gwasanaethau newydd, gallai hyn hefyd arwain at gynydd yn nifer y cwynion drwyddynt draw. Ar hyn o bryd, ni fu newid ystadegol arwyddocaol yn nifer y cwynion. Wrth i'r gwasanaeth aeddfedu, bydd y gwerthusiad yn parhau i fonitro'r effaith ar gwynion dioddefwyr.

Gwella'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr²¹

Bwriedir y Rhaglen yn flaenaf oll i roi profiad gwell a mwy empathig i ddioddefwyr; mae hyn yn ganolog i strategaeth 2030 Gwasanaeth Erlyn y Goron. Er nad dyma sbardun canolog y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr, gallai gwella profiad dioddefwyr olygu bod mwy o ddioddefwyr yn parhau â'r broses cyfiawnder troseddol drwy sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i wneud y penderfyniadau iawn ar eu cyfer. Gall hyn arwain at fod llai o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o'r broses, tra bydd rhai dioddefwyr, a fyddai'n tynnu'n ôl o'r broses yn y pen draw beth bynnag, yn gwneud hynny'n gynt os oes ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud y penderfyniad hwnnw; mae hyn yn arwain at fudd eilaidd i'r System Cyfiawnder Troseddol oherwydd fe ellir defnyddio'r adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio i fwrw'r achosion hynny ymlaen yn fwy effeithiol mewn manau eraill.

Rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Hydref 2025, cafodd cyfanswm o 5,647 o achosion a gofrestrwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron eu dirwyn i ben ar ôl cyhuddo'r diffynnydd gan nad oedd y dioddefwr yn cefnogi'r erlyniad mwyach, neu ddim yn gallu ei gefnogi - ein mesur o'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr yn yr ymchwil hwn.

Mae'n anodd mesur effaith y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr pan fo llawer o achosion heb eu cwblhau eto

²⁰ Mae'r ffigur yn cynrychioli cost gyfartalog staff yr awr wedi'i phwysoli, a gyfrifwyd gan ddefnyddio costau cyflog blyneddol a chostau llety cysylltiedig a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

²¹ Mae dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl yng nghyd-destun y llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn cyfeirio at ddioddefwyr sy'n tynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol cyn i'r achos ddod i ben, yn aml drwy fod yr achwynydd yn tynnu'n ôl neu'n tynnu'r honiad yn ôl. Roedd ein hymchwil yn canolbwyntio ar achosion yng Nghymru a Lloegr lle mae dioddefwyr yn tynnu'n ôl tra bo'r achos yn cael ei erlyn, er y gall dioddefwyr dynnu'n ôl ar gamau eraill ym mhroses y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae'n arbennig o anodd dadansoddi'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr oherwydd dim ond ar ôl iddynt gael eu cwblhau y gellir cynnwys achosion; mae hynny'n aml yn cymryd misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd, yn enwedig ar gyfer RASSO neu achosion cam-drin domestig.

Mae'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn cwmpasu tua blwyddyn ers lansio'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO), 11 mis ers lansio Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, a dim ond chwe mis ers lansio Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol.

Am y rheswm hwn, rydym wedi cyfyngu ein dadansoddiad meintiol o'r effaith ar gyfraddau tynnu'n ôl dioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol, oherwydd ers faint o amser y mae'r gwasanaeth wedi cael ei dreialu a'r amser cyfartalog a gymerir i achosion cymwys gael eu cwblhau. Mae'r rhan fwyaf o achosion RASSO a cham-drin domestig sy'n derbyn y gwasanaethau hyn yn dal i fynd rhagddynt felly ni allwn wybod a fyddant yn dod i ben oherwydd bod y dioddefwyr yn tynnu'n ôl. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl cael mesur cadarn o'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr ar hyn o bryd gan mai dim ond rhan fach o'r llwyth achosion cyfan y byddai'r dadansoddiad yn ei hadlewyrchu, sy'n golygu ei bod yn rhy fuan dod i gasgliadau dibynadwy.

Bydd canlyniadau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr yn dal i gael eu monitro gan y gwerthusiad wrth i fwy o ddioddefwyr gael y gwasanaethau ac wrth i fwy o achosion gael eu cwblhau. Isod, rydym yn disgrifio'r canfyddiadau y gallwn roi sylwadau arnynt.

Y Prif Ganfyddiadau: Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn cael effaith gadarnhaol (er mor fach) ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr, er ei bod yn rhy gynnar i fod yn hyderus yn y canfyddiadau hyn

Mae gennym ddata ar 9,044 o achosion a fu'n gymwys i gael gwasanaeth dan Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol er mis Rhagfyr 2024, ac arweiniodd 114 o'r achosion hynny at ddim euogfarnau oherwydd bod y dioddefwyr wedi tynnu'n ôl.

Canfu ein dadansoddiad (gan ddefnyddio dull rheoli synthetig cyffredinol) ostyngiad nad yw'n ystadegol arwyddocaol yn y cyfraddau tynnu'n ôl. Ar gyfartaledd, caewyd 3.6% yn llai o achosion ym mhob Ardal beilot bob mis o'i gymharu â'r hyn a ddisgwyliid pe na bai'r Peilot wedi cael ei gyflwyno. Nid yw hyn yn golygu bod y gyfradd tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr yn lleihau yn ardaloedd y Peilot²² - dim ond y gallai fod yn is nag y byddai heb y Rhaglen, a bach yw maint yr effaith. Er enghraifft, gan ddefnyddio'r ffigur uchod o 114 o achosion lle tynnodd y dioddefwyr yn ôl yn ystod cyfnod ein dadansoddiad, byddem yn amcangyfrif, heb Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol, y byddai hyn wedi bod yn 118 o achosion - gan osgoi pedwar achos lle bo'r dioddefwyr yn tynnu'n ôl.

Gan ddefnyddio amcangyfrif o gost adnoddau Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n ofynnol mewn achosion sy'n dod i ben pan fydd dioddefwr yn tynnu'n ôl²³, byddai'r gostyngiad hwn yn nifer y

²² Mae ardaloedd y Peilot ac ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r Peilot yn dal i weld lefelau cynyddol o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl drwyddi draw.

²³ Roedd ymchwil gan [Heeks et al. \(2018\)](#) yn dangos pris cysgodol o £2,917 am adnoddau Gwasanaeth Erlyn y Goron oherwydd bod dioddefwyr yn tynnu'n ôl; gellid dynodi hwn fesul achos ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol.

dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl cyn gorffen yn cyfateb i £111,000 y flwyddyn mewn buddion cynhyrchiant (nid arbedion ariannol) ar draws yr ardaloedd peilot oherwydd bod yr ymdrechion bellach yn canolbwyntio ar achosion a fydd yn mynd rhagddynt yn hytrach nag yn dod i ben oherwydd bod dioddefwyr yn tynnu'n ôl.

Gan nad yw'r canlyniad yn arwyddocaol yn ystadegol, rydym yn rhoi cyd-destun ar gyfer y tebygolrwydd bod Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr i wahanol raddau yn Nhabl 4 isod. Dengys hyn y ceir siawns o 52% fod Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl o gwbl (ac felly bron yr un siawns - 48% - nad yw'n gwneud hynny) ac mae'n dangos y tebygolrwydd ei fod yn lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr i wahanol raddau o'i gymharu â'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig heb y Rhaglen. Mae hyn yn dangos y ceir amrywiaeth eang o effeithiau posibl, ac nad oes yr un effaith wedi trosi'n newid amlwg i dimau Ardaloedd eto, felly dylid bod yn ofalus wrth ddechongli'r data hwn.

Tabl 4: Y tebygolrwydd bod Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr i raddau penodol

Y tebygolrwydd bod hyn yn wir	
Lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl o gwbl	52%
Lleihau o leiaf 5% ar y cyfraddau tynnu'n ôl	43 %
Lleihau o leiaf 10% ar y cyfraddau tynnu'n ôl	36%
Lleihau o leiaf 15% ar y cyfraddau tynnu'n ôl	31%
Lleihau o leiaf 20% ar y cyfraddau tynnu'n ôl	26%
Lleihau o leiaf 25% ar y cyfraddau tynnu'n ôl	22%

Nodyn dehongli:

Cyfrifir y canlyniadau yn Nhabl 4 gan ddefnyddio dull dadansoddi ystadegol a elwir yn dull Rheoli Synthetig Cyffredinol (gweler yr Adroddiad Technegol am ragor o fanylion). Cyfrifir y canrannau hyn o broses ymlwytho a ddefnyddir wrth greu'r model. Mae hyn yn golygu rhedeg y model 1000 o weithiau ar sail samplau a gymerwyd o'r set ddata lawn i ddeall sut mae gwahaniaethau yn y data yn effeithio ar y canlyniad a gafwyd.

Er enghraifft, o'r 1000 o fersiynau o'r model, arweiniodd 520 (h.y. 52%) at ostyngiad yn y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr. Arweiniodd 220 at ostyngiad o 25% o leiaf yn y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr.

Y Prif Ganfyddiadau: Nid oes digon o amser wedi mynd heibio i ganiatáu inni wneud asesiad cadarn o'r nifer sy'n tynnu'n ôl ym Mheilot y Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) oherwydd yr amser sydd ei angen i achosion basio'n llawn drwy'r system

Mae'n arbennig o anodd mesur effaith Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) o ystyried hyd cyfartalog yr achosion hyn a'r data sydd ar gael ers lansio'r gwasanaethau. Byddai seilio casgliadau ar achosion sydd wedi'u cwblhau yn rhoi darlun anghywir o'r effaith. O ystyried faint y disgwyli'r achosion sy'n gymwys ar gyfer Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a'r

Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) gymryd i'w cwblhau, rydym yn disgwyl dod i gasgliadau'n fwy hyderus ynghylch effaith y Rhaglen ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr ddiwedd haf 2026.

Nes bydd mwy o ddioddefwyr yn cael y gwasanaeth llawn, ansoddol yw mesurau effaith Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) i raddau helaeth. Fel y trafodwyd ym Mhennod 1, mae'r wybodaeth a gafwyd yn sgil ein cysylltiad â dioddefwyr ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) yn dangos nad yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud pethau'n iawn i bob dioddefwr eto, ond pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn darparu'r gwasanaeth yn dda, mae'n cael effaith fawr ar ddioddefwyr.

Y Prif Ganfyddiadau: Mae timau darparu'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr a rhai rhanddeiliaid allanol yn credu bod gan y Rhaglen y potensial i helpu dioddefwyr i barhau â'r broses cyfiawnder troseddol

Ceid consensws ar draws y timau darparu a rhwng yr heddlu a rhanddeiliaid ymysg Cyngorwyr annibynnol ar draws domestig fod gan y Rhaglen y potensial i helpu dioddefwyr i beidio â thynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol.

Er enghraifft, dywed staff o Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol fod rhai o'r dioddefwyr roeddent wedi cysylltu â nhw yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt fwy o ran yn y broses cyfiawnder troseddol, a bod rhoi pwynt cyswllt i ddioddefwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron wedi arwain at wasanaeth mwy cyson.

"O safbwynt y [dioddefwr], mae'n rhywun arall i'w gefnogi ac mae'n rhywun arall sy'n cadw'u cefn. Yn aml iawn, gall [dioddefwyr] deimlo'n ynysig iawn, teimlo allan ohoni, a theimlo bod y bwlch rhwng y penderfyniad i gyhuddo a'r llys... Maen nhw'n ymbalfalu yn y canol. Felly, i mi yn benodol, byddai rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt mewn modd amserol ac am sut mae pethau'n mynd yn sicr o gynnal eu hymrwymiad." - Cyngorwr Annibynnol ar Drais Domestig

Dyweddodd staff Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol y gallai fod yn rhy fuan gweld effaith y gwasanaeth ar ymrwymiad dioddefwyr i'r broses cyfiawnder troseddol ond eu bod yn teimlo y gall pwynt cyswllt penodol yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron helpu pan fydd ganddynt gwestiynau neu pan fyddant yn gofyn am gymorth. Awgrymodd un Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig y byddai cael llinell uniongyrchol at Wasanaeth Erlyn y Goron gyda diweddariadau rheolaidd yn helpu dioddefwr i deimlo ei fod yn rhan o'r broses gyfreithiol a chynnal ei ymrwymiad.

Ar sail ein canfyddiadau ar draws y gwerthusiad, wrth i fwy o amser fynd heibio ac wrth i'r gwasanaethau barhau i wreiddio, rydym yn disgwyl y bydd gallu'r Rhaglen i gael effaith gadarnhaol ar nifer y dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl yn dod yn fwy i'r amlwg. Mae'r dystiolaeth a amlinellir ym Mhennod 1 yn rhoi hyder y gall canlyniadau arfaethedig tymor byr a thymor canolig y Rhaglen gael effaith sylweddol ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr. Mae achosion o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl yn cael effaith emosiynol negyddol ar ddioddefwyr, ond mae hefyd yn arwain at gost enfawr ar gapasiti a chost ariannol i'r system. **Os bydd y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn dal i ddarparu'r gwasanaeth lle mae effaith yn amlwg ac yn dal i ddysgu ac addasu ei dull gweithredu lle**

gellir gwella, mae ganddi'r potensial i ddod â buddion cadarn i'r System Cyfiawnder Troseddol.

Pennod 4: Gwerth am arian y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr

Mae'r adran hon yn trafod a yw'r Rhaglen yn rhoi gwerth am arian i Wasanaeth Eryl y Goron ac i gymdeithas. Rydym yn ystyried faint mae'r Rhaglen yn ei gostio i'w rhedeg, ac a yw ei buddion arfaethedig yn dwyn digon o werth i gyfiawnhau'r gost.

Y Prif Ganfyddiadau: Gwerth am arian y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr

- Rydym yn amcangyfrif bod y Rhaglen yn 2025/26 wedi arwain at £138.4 miliwn o fuddion, gyda gwell lles ymysg dioddefwyr yn cyfrannu fwyaf at y gwerth hwn
- Gallwn ddweud gyda chryn hyder, hyd yn oed o ystyried yr ansicrwydd yn ein data, fod buddion y Rhaglen yn ein hasesiad yn fwy na'i chost
- Wrth i'r Rhaglen aeddfedu, bydd y gwerthusiad yn parhau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o werth am arian y rhaglen

Nodyn dehongli:

Mae ein hasesiad gwerth am arian yn defnyddio dadansoddiad cost a budd safonol. Saif dadansoddiadau a thybiaethau manwl y tu ôl i'r gwaith hwn; mae'r manylion i'w gweld yn yr Adroddiad Technegol.

Isod, rydym wedi egluro rhai o'r termau allweddol sydd eu hangen i ddeall y gwaith hwn.

Diffiniadau allweddol:

- **Gwerth Presennol y Buddion:** yw gwir werth y buddion heddiw. *Mae hwn yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r Gymhareb Cost a Budd a'r Gwerth Presennol Net.*
- **Gwerth Presennol y Costau:** yw gwir werth y costau heddiw. *Mae hwn yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r Gymhareb Cost a Budd a'r Gwerth Presennol Net.*
- **Cymhareb Cost a Budd:** un o'r metrigau allweddol mewn Dadansoddiad Cost a Budd sy'n rhoi mesur o'r buddion mewn perthynas â'r costau.
- **Gwerth Presennol Net:** un o'r metrigau allweddol mewn Dadansoddiad Cost a Budd sy'n rhoi mesur o fudd cyffredinol yr ymyriad ar ôl costau.
- **Tuedd Optimistiaeth:** mae'n bwrw cyfrif o duedd gwerthuswyr neu arfarnwyr i fod yn or-optimistaidd gyda'u rhagdybiaethau. Mae addasu ar gyfer tuedd optimistiaeth yn addasu'r buddion enwol ac yn addasu'r costau enwol.

Cyfrifir Gwerth Presennol y Buddion a Gwerth Presennol y Costau drwy:

- addasu buddion a chostau ar gyfer y gyfradd chwyddiant gan ddefnyddio Datchwyddydd y cynnyrch domestig gros (*i ddileu effeithiau chwyddiant cyffredinol*), a
- disgowntio yn ôl y gyfradd ffafriaeth amser gymdeithasol (*i adlewyrchu'r ffafriaeth am y gwerth yn awr yn hytrach nag yn hwyrach*).
- Gelwir y buddion a'r costau cyn yr addasiadau hyn yn rhai enwol (h.y. maent yn cynnwys chwyddiant ac, felly, dyma'r prisiau gwirioneddol).
- Gelwir y buddion a'r costau ar ôl yr addasiadau hyn yn rhai gwirioneddol ac wedi'u disgowntio - gan roi Gwerth presennol y buddion a Gwerth presennol y costau.

Cyfrifir y **Gymhareb Cost a Budd drwy**: rannu Gwerth Presennol y Buddion â Gwerth Presennol y Costau

- O ystyried yr ansicrwydd yn y data a'r diffyg arwyddocâd ystadegol yn yr allbynnau, mae Cymhareb Cost a Budd y Rhaglen yn yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno fel ystod.
- Mae Cymhareb Cost a Budd sy'n fwy nag 1 yn dangos bod yr ymyriad yn rhoi gwerth da am arian.
- Mae Cymhareb Cost a Budd o dan 1 yn dangos bod yr ymyriad yn rhoi gwerth gwael am arian.

Cyfrifir y **Gwerth Presennol Net drwy**: dynnu Gwerth Presennol y Costau o Werth Presennol y Buddion

- O ystyried yr ansicrwydd yn y data a'r diffyg arwyddocâd ystadegol yn yr allbynnau, mae Gwerth presennol net y Rhaglen yn yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno fel amrediad.

Y Prif Ganfyddiadau: Rydym yn amcangyfrif bod y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn 2025/26 wedi arwain at £28.7 miliwn o fuddion, gyda gwell lles ymysg dioddefwyr yn cyfrannu fwyaf at y gwerth hwn

Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, mae'r Rhaglen yn creu buddion drwy wella lles dioddefwyr, llai o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl ym Mheilol y Gwasanaeth Cyffredinol, ac arbedion effeithlonrwydd i'r sefydliad. Fe wnaethom asesu effaith economaidd ariannol y buddion hyn a chanfod y canlynol:

- **Gwell lles ymysg dioddefwyr sy'n rhoi'r budd mwyaf o £151.2 miliwn²⁴.** Mae mwy o'r dioddefwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi delio â'u hachos yn deg ac wedi'u trin â pharch, o'i gymharu â dioddefwyr a arolygwyd cyn cyflwyno'r Rhaglen (Arolwg Profiad Dioddefwyr y Comisiynydd Dioddefwyr, 2021). Fe wnaethom ddefnyddio dull dadansoddol i amcangyfrif sut mae'r gwelliant hwn mewn lles yn dod â budd economaidd ariannol (gweler yr Adroddiad Technegol am ragor o fanylion). Fe wnaethom amcangyfrif bod y gwelliant hwn, yn 2025/26, wedi arwain at y canlynol²⁵:
 - £89.6 miliwn mewn buddion gan Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol i 5,328 o ddioddefwyr ar draws y ddwy ardal beilot;
 - £23.6 miliwn gan y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) i 1,646 o ddioddefwyr ar draws pob un o 14 ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron; a
 - £38.0 miliwn gan Beilot y Gwasanaeth Ychwanegol i 4,934 o ddioddefwyr ar draws y ddwy ardal beilot.

²⁴Mae hwn yn uwch na'r cyfanswm a ddangosir uchod gan ei fod yn cynnwys addasiad tuedd optimistiaeth, proses safonol gan y Trysorlys i sicrhau nad yw buddion yn cael eu gorbwysleisio. Mae'r budd llesiant yn cael ei ddangos ar ei lawn werth, tra bo'r cyfanswm yn adlewyrchu'r addasiad rhagofalus hwn.

²⁵ Mae ffigur RASSO wedi'i seilio ar draws pob ardal. Mae ffigur y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn seiliedig ar ddwy ardal beilot.

- **Mae gwell effeithlonrwydd sefydliadol yn dod â budd o £154,000.** Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol sydd bellach yn arwain y cyfathrebiadau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr yn hytrach na chyfreithwyr. Ar sail graddfa a chost y staff, mae'r newid hwn yn y ffordd o baratoi llythyrau cysylltu a chyfathrebu â dioddefwyr yn golygu bod y cynlluniau peilot yn arbed £154,000 y flwyddyn. Mae arbedion bach ychwanegol yn deillio o lai o gwynion gan ddioddefwyr.
- **Mae cyfraddau tynnu'n ôl is ymysg dioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol yn arwain at fudd o £111,000.** Gwelodd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol ostyngiad bach yn nifer y dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl o'i gymharu â'r hyn yr amcangyfrifir a fyddai wedi digwydd heb y gwasanaeth. Fe wnaethom gyfrifo cost lleihau adnoddau anghynhyrchiol ar achosion nad ydynt yn arwain at dreial effeithiol. Gan ddefnyddio cost gyfartalog ar gyfer yr adnoddau a ddefnyddia Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn achosion lle mae dioddefwyr yn tynnu'n ôl cyn i'r achos gael ei gwblhau, ar sail ymchwil academiaidd²⁶, dangosodd ein dadansoddiad y gallai'r gyfradd is hon o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl arbed £111,000 y flwyddyn i Wasanaeth Erlyn y Goron.

Cyfanswm y buddion hyn yw £151.4 miliwn. Ar ôl cymhwyso'r addasiadau safonol o 15% ar gyfer tuedd optimistiaeth (dull dadansoddol sy'n bwrw cyfrif o'r risg o fod yn rhy optimistaidd wrth fesur buddion), amcangyfrifir bod buddion cyffredinol y Rhaglen yn 2025/26 yn £128.7 miliwn. Amcangyfrif yw ein gwaith, ac mae ein dadansoddiad sensitifrwydd yn awgrymu y gallai cyfanswm y buddion syrthio o fewn amrediad.

Tabl 5: Asesiad gwerth am arian y Rhaglen yn 2025/26: gwerthoedd cost a budd cyn ac ar ôl addasiadau'r duedd optimistiaeth

		Cyn addasu ar gyfer tuedd optimistiaeth	Ar ôl addasu ar gyfer tuedd optimistiaeth
Buddion ariannol	Gwasanaeth Erlyn y Goron yn fwy effeithlon	£154,000	£131,000
	Gwell Llesiant ymysg Dioddefwyr	£151.2M	£128.5M
	Llai o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol	£111,000	£94,000
	Cyfanswm buddion y Rhaglen	£151.4M	£128.7M
Cost ariannol	Cyfanswm costau'r Rhaglen	£13.2M	£13.2M
Gwerth Presennol Net			£125.2M
Cymhareb Cost a Budd			7.1-12.7


Roedd y Rhaglen wedi costio £13.2 miliwn i'w rhedeg i Wasanaeth Erlyn y Goron yn 2025/26. Cost cyflwyno Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol a'r Gwasanaeth Ychwanegol yn 2025/26 oedd £8.5 miliwn,

²⁶ Heeks, M., Reed, S., Tafiri, M. and Prince, S.(2018). *The economic and social costs of crime*. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60094b86d3bf7f2ab1a1af96/the-economic-and-social-costs-of-crime-horr99.pdf>.

ac roedd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) wedi costio £4.7 miliwn, sy'n cynnwys staffio, rheoli'r rhaglen, hyfforddiant a gwerthuso.

Mae hyn yn golygu bod y buddion y mae'r Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr yn esgor arnynt yn fwy na'r costau, a diodefwyr sy'n teimlo'r rhan fwyaf o'r buddion hynny.

Ffigur 3: Crynodeb o gostau a buddion y Rhaglen (ar ôl addasu ar gyfer tuedd optimistiaeth) yn 2025/26



Y Prif Ganfyddiadau: Gallwn ddweud gyda chryn hyder, hyd yn oed o ystyried yr ansicrwydd yn ein data, fod buddion y Rhaglen yn ein hasesiad yn fwy na'i chost

Fel rhan o'n hasesiad o werth am arian, fe wnaethom gynnal dadansoddiad sensitifrwydd i brofi pa mor hyderus ydym ni yn ein canlyniadau. Roedd ein dadansoddiad sensitifrwydd yn awgrymu y gallai budd y Rhaglen amrywio o £80 miliwn i £154.6 miliwn. Mae hyn yn rhoi Cymhareb Cost a Budd o rhwng 7.1 a 12.7, sy'n golygu, am bob £1 sy'n cael ei gwario, amcangyfrifir bod y Rhaglen yn cynhyrchu gwerth rhwng £7.1 a £12.7 o fuddion ar sail graddfa'r ddarpariaeth bresennol, er mai buddion cymdeithasol yw'r rhan fwyaf o'r buddion hyn, yn hytrach nag arbedion ariannol i Wasanaeth Erlyn y Goron. Hyd yn oed wrth ystyried ansicrwydd a newidiadau mewn tybiaethau yn y dadansoddiad sensitifrwydd, mae hyn yn dangos bod gwerth buddion y Rhaglen bob amser yn uwch yn y dadansoddiad hwn na'r gost.

Wrth i'r Rhaglen aeddfedu, bydd y gwerthusiad yn parhau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o werth am arian y rhaglen

Er bod dadansoddiad sensitifrwydd yn bwrw cyfrif o ansicrwydd, dylid dehongli'r canlyniadau hyn yn ofalus o hyd. Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, nid yw canlyniadau'r effaith yn arwyddocaol yn ystadegol, ac mae hyn yn rhannol oherwydd y nifer cymharol fach o bobl a fydd wedi cael gwasanaeth llawn y Rhaglen y maent yn gymwys i'w gael. Wrth inni wella'r gallu i fesur ac adnabod yr effaith (fel cyfraddau tynnu'n ôl diodefwyr drwy'r Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth RASSO

Ychwanegol) yn hyderus, mae gwerth am arian y rhaglen drwyddi draw yn debygol o fod yn fwy cadarn o lawer ac yn amlwg yn uwch.

Mae'r dadansoddiad presennol yn cyflwyno asesiad o werth am arian y Rhaglen yn 2025/26 ar sail y data cyfredol. Mae'r atodiad i'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys dadansoddiad o gyfanswm y costau a wynebwyd a'r buddion a gafwyd hyd yma, ochr yn ochr â'r buddion cronrus rhagamcanol fel y disgwylir iddynt gronni. Wrth i'r Rhaglen esblygu, bydd y gwerthusiad yn parhau i fesur ei gwerth am arian ac yn ehangu cwmplas yr hyn y gellir ei gynnwys - naill ai drwy ddata mwy cadarn ar ganlyniadau, neu werthusiad ychwanegol o'r adnoddau a'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at werth am arian²⁷.

Casgliad

Pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn darparu gwasanaethau'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn dda, mae'n cael effaith gadarnhaol ar ddioddefwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn gyson eto, sy'n golygu nad yw pob dioddefwr yn elwa.

Cafodd y rhan fwyaf o ddioddefwyr wasanaeth o ansawdd uchel gan Wasanaeth Erlyn y Goron, gan gynnwys cyfathrebiadau clir ac empathig a anfonwyd o dan y Rhaglen a chyfarfodydd cyn-treial effeithiol gyda thîm yr erlyniad sydd wedi lleihau pryder dioddefwyr a gwella'u hymddiriedaeth a'u hyder yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron. Fodd bynnag, nid dyma brofiad pob dioddefwr, ac roedd rhai'n teimlo nad oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma wrth gyfathrebu nac wrth ddarparu'r gwasanaethau ehangach.

Mae darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddioddefwyr yn un o'r canlyniadau allweddol i'r Rhaglen ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaeth strategol Gwasanaeth Erlyn y Goron i roi dioddefwyr wrth galon y System Cyfiawnder Troseddol a sicrhau eu bod yn cael gwasanaeth cefnogol. Er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn i bob dioddefwr, dylai'r Rhaglen adolygu sut mae anghenion a dewisiadau dioddefwyr yn cael eu hystyried a'u gwreiddio ar draws yr holl brosesau a'r lefelau darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys diweddarau'r hyfforddiant a'r canllawiau i staff cyfreithiol ac anghyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau bod cyfathrebiadau clir, empathig sy'n ystyriol o drawma yn cael eu cyflwyno fel mater o drefn; adolygu prosesau i ganfod a darparu ar gyfer anghenion hygrychedd a defnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gan ddioddefwyr i'w helpu i ymrwymo'n llwyr i'r broses gyfreithiol; a gwella'r gwaith o gydlyn a chyfuno prosesau gyda phartneriaid yr heddlu a gwasanaethau i ddioddefwyr er mwyn cyflwyno profiad cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr.

I'r dyfodol, bydd y gwerthusiad yn dal i ganolbwyntio ar gasglu adborth dioddefwyr ar eu profiadau o'r gwasanaeth fel un o'r mesurau effaith allweddol, ac i gefnogi peirianweithiau adborth tymor hwy yn y Rhaglen i sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn siapio'r gwasanaeth.

²⁷ Er enghraifft, mae adnodd *Correspondence Drafter* wrthi'n cael ei brofi; fe allai hwn leihau'r amser a gymerir i ysgrifennu llythyrau a negeseuon e-bost, gan wella'r arbedion effeithlonrwydd a gafwyd eisoes. Mae gwerthusiad o'r adnodd wrthi'n cael ei drefnu.

Pan ddaw'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn fwy sefydledig a phan ddaw i gael ei darparu'n fwy cyson, disgwylwn y daw ei gallu i leihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr yn fwy i'r amlwg.

Drwy sicrhau bod dioddefwyr yn cael yr holl wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud y penderfyniadau iawn ar eu rhan, mae gan y Rhaglen y potensial i helpu mwy o ddioddefwyr i barhau â'r broses cyfiawnder troseddol. Gwelsom arwyddion cynnar cadarnhaol, drwy ddull modelu ystadegol, y gallai Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol fod yn effeithio ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr.

Mae timau darparu'r Rhaglen a rhai rhanddeiliaid allanol yn credu bod gan y Rhaglen y potensial i helpu dioddefwyr i barhau â'r broses cyfiawnder troseddol, ac i rai dioddefwyr, mae'r gwasanaeth wedi dangos ei effaith. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl gwneud asesiad cadarn o effaith Peilot y Gwasanaeth Ychwanegol a'r Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) eto gan nad oes digon o ddata ar gael.

Rydym yn disgwyl dod i gasgliadau'n fwy hyderus am effaith y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ar y cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr yn ystod haf 2026 pan fydd mwy o achosion cymwys wedi cael eu cwblhau. I ddangos hyn, mae angen i'r Rhaglen ddal i ddarparu elfennau o'r gwasanaeth y gwyddom eu bod yn gweithio'n dda, a dysgu ac addasu ei ddull gweithredu lle gellir gwneud gwelliannau. Fel gwerthuswyr, byddwn yn dal i gefnogi Gwasanaeth Erlyn y Goron i gasglu data mewn ffordd sy'n golygu y gallwn wneud dadansoddiadau cadarn er mwyn deall canlyniad achosion. Bydd hyn yn rhoi inni ddarlun cliriach o effaith y Rhaglen ar y cyfraddau gadael ymysg dioddefwyr a'r buddion y gall eu cynnig.

Gallwn ddweud gyda chryn hyder fod budd y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr yn ein hasesiad yn fwy na chost y Rhaglen, er gwaethaf yr ansicrwydd yn ein data.

Dangosodd y Rhaglen werth cadarnhaol am arian yn 2025/26, gan sicrhau budd drwy wella llesiant dioddefwyr, lleihau'r cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr ym Mheilot y Gwasanaeth Cyffredinol, a sicrhau rhai arbedion effeithlonrwydd i'r sefydliad. Hyd yn oed wrth ystyried yr ansicrwydd yn y data, mae gwerth y buddion hyn bob amser yn uwch yn y dadansoddiad hwn na chost y Rhaglen.

Yng ngham nesaf y gwerthusiad, byddwn yn datblygu gwell dealltwriaeth o werth am arian y Rhaglen. Mae rhai o fuddion y Rhaglen nad ydynt wedi cael eu gwireddu'n llawn eto, yn benodol yr arbedion effeithlonrwydd sefydliadol sydd ar gael drwy atebion digidol. Nid yw'r datblygiadau arloesol hyn wedi cael eu sefydlu'n ddigon hir i'w cynnwys yn ein hasesiadau o werth am arian hyd yma. Wrth i'r gwaith ar atebion digidol aeddfedu, byddwn yn helpu Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddeall effaith y datblygiadau arloesol hyn.

Disgwylir i Wasanaeth Erlyn y Goron ystyried a ddylid ehangu'r Rhaglen a'i gwreiddio mewn model gweithredu busnes fel arfer, a sut dylid gwneud hynny. Byddwn yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth iddo fireinio model gweithredu'r Rhaglen i ddwyn buddion i ddioddefwyr a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr i helpu i'w gwneud yn fwy effeithlon ac i sicrhau canlyniadau gwell, ar sail canfyddiadau'r gwerthusiad.

Cyf.	Argymhellion
ARG 1	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu'r deunyddiau canllaw a'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer paratoi a drafftio gohebiaeth i ddioddefwyr, gan ganolbwyntio ar feysydd y mae'n hysbys bod lle i'w gwneud yn fwy eglur (e.e. esboniadau clir o jargon cyfreithiol).
ARG 2	Dylai Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr esbonio'n glir wrth ddioddefwyr beth yw pwrpas cyfarfodydd cyn-treial cyn iddynt fynychu, er mwyn helpu i reoli eu disgwyliadau ynghylch pa bynciau y gellir eu trafod, ac i helpu dioddefwyr i baratoi a gwneud y gorau o'r cyfarfodydd.
ARG 3	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr annog y timau darparu i gynhyrchu dogfennau cyfeirio sy'n benodol i ardal sy'n catalogio gwasanaethau cymorth lleol er mwyn paratoi staff yn well i roi i ddioddefwyr gymorth sy'n benodol i Ardal.
ARG 4	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr barhau i adolygu a diweddarau hyfforddiant staff yn aml er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion dioddefwyr.
ARG 5	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddefnyddio'r adborth gan ddioddefwyr yn yr adroddiad hwn i ddiweddarau'r canllawiau a'r hyfforddiant i staff sy'n delio â dioddefwyr (gan gynnwys cyfreithwyr) ar sut beth yw arfer da mewn cyfathrebu clir ac empathig. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith parhaus i roi lle canolog i leisiau dioddefwyr mewn deunyddiau dysgu i staff.
ARG 6	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddiweddarau'r canllawiau i staff sy'n drafftio gohebiaeth â dioddefwyr, fel bod y staff yn adolygu llythyrau i sicrhau bod y brawddegau'n glir, yn ddealladwy, yn ramadegol gywir, ac yn cynnwys gwybodaeth gywir am y dioddefwr a'r achos.
ARG 7	Dylai tîm arweinwyr y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr ddal i wreiddio a hyrwyddo'r diwylliant 'profi a dysgu' ar draws y gwaith o gyflawni'r rhaglen er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd a data o well ansawdd.
ARG 8	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu'r prosesau er mwyn darparu ar gyfer amrywiol ofynion hygyrchedd dioddefwyr gan fynegi'r rhain yn glir wrth y timau sy'n darparu'r Rhaglen.
ARG 9	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr gyfleu pwrpas a gwerth y Rhaglen yn glir wrth bartneriaid yr heddlu a gwasanaethau i ddioddefwyr er mwyn sicrhau eu hymrwymiad, gan hwyluso cyfathrebu a chydlynu cadarn.

ARG 10	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr adolygu'r negeseuon i bartneriaid am bwrpas cyfarfodydd cyn-treial a rôl ddisgwyliedig y partneriaid mewn cyfarfodydd. Dylid mynegi hyn wrth yr heddluoedd a'r gwasanaethau lleol ar lefel strategol, yn ogystal ag yn uniongyrchol wrth ymarferwyr rheng flaen pan drefnir cyfarfodydd.
ARG 11	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr weithio'n agos gydag arweinwyr yr heddlu i sicrhau bod y wybodaeth y mae ar Wasanaeth Erlyn y Goron ei hangen yn cael ei diffinio'n glir, ac i egluro a chytuno ar sut mae data'n cael ei gofnodi a'i rannu.
ARG 12	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr geisio deall y rhesymau pam y gofynnir am nifer o gyfarfodydd cyn-treial, ac a yw hyn oherwydd bod gan ddioddefwyr gwestiynau gwahanol ar wahanol gamau, oherwydd newidiadau yn amseroedd aros yr achos neu'r treial, neu oherwydd na chafodd gwybodaeth ei hegluro'n glir mewn cyfarfodydd cynharach.
ARG 13	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr gydgyssylltu â Gofal i Dystion i adolygu pa wybodaeth a diweddariadau y mae dioddefwyr yn eu cael am yr achos yn dilyn y penderfyniad ynghylch cyhuddo a chyn y treial er mwyn llywio'r canllawiau ar ba bryd y mae diweddariadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn fwyaf buddiol i ddioddefwyr.
ARG 14	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr sicrhau bod ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn y canllawiau ar gynnig cyfarfodydd cyn-treial drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion a dewisiadau dioddefwyr o ran amser a lleoliad y cyfarfodydd. Dylai'r Rhaglen ystyried a oes angen capasiti ychwanegol ar ardaloedd i gynnal y cyfarfodydd hyn yn unol ag anghenion dioddefwyr.
ARG 15	Dylai uwch reolwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron gryfhau'r ffordd maent yn cyfleu pwysigrwydd rôl Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr i gyflawni blaenoriaethau'r sefydliad gan fod rhai staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi na'u cydnabod.
ARG 16	Dylai'r Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr egluro priod rolau a disgwyliadau Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr ac erlynwyr i ddrafftio a sicrhau ansawdd llythyrau Cysylltu a Chyfathrebu â Dioddefwyr, gan ganolbwyntio ar ble gall pob rôl ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Atodiad - Dadansoddiad Cost a Budd o'r rhaglen lawn

Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg o werth am arian y rhaglen lawn. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio'r costau a'r buddion a gyflwynir yn yr adroddiad cryno. Fodd bynnag, yn hytrach nag ystyried un flwyddyn, mae'n asesu'r costau a wynebwyd wrth ddarparu'r Rhaglen ers ei sefydlu'n wreiddiol yn 2022/23 ac yn ystyried a yw'r buddion a gafwyd hyd yma (h.y. Ionawr 2026) yn cyfiawnhau'r costau hyn. Mae dadansoddiad manwl o'r dulliau wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Technol cysylltiedig.

A1a. Costau llawn y rhaglen

Ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a disgowntio, y costau economaidd disgowntiedig, gwirioneddol oedd £13.2M, fel y dangosir yn Nhabl A1 isod. Gelwir y rhain hefyd yn werth presennol y costau. Mae'r gwerthoedd hyn yn ffurfio'r mewnbwn cost a ddefnyddir yn Dadansoddiad Cost a Budd llawn y rhaglen.

Tabl A1: Costau llawn y Rhaglen Drawsnewid i Ddiodefwyr

Categori	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Staff y rhaglen	£0.7M	£1.5M	£2.5M	£4.0M
Gwariant Blynyddol Cyffredinol a Chyfalaf	amh	£0.3M	£2.4M	£4.9M
RASSO (Cyfarfodydd Cyn-treial a Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr)	amh	£0.3M	£4.6M	£3.9M
Anfanteision effeithlonrwydd Hawl diodefwyr i gael adolygiad ²⁸	amh	amh	£200	£500
Cyfanswm y Costau Enwol	£0.7M	£2.2M	£9.5M	£12.9M
Costau economaidd disgowntiedig, gwirioneddol (prisiau 2025/26)	£0.8M	£2.2M	£9.1M	£11.5M

A1b. Buddion llawn y rhaglen

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r buddion ariannol allweddol a gynhwysir yn y Dadansoddiad cost a budd llawn o'r Rhaglen. Fel y trafodwyd drwy'r adroddiad cryno, mae'r Rhaglen yn cynhyrchu buddion drwy wella llesiant diodefwyr, cyfraddau tynnu'n ôl is ymysg diodefwyr na fyddid wedi'i ddisgwyl heb Beilot y Gwasanaeth Cyffredinol, a rhai arbedion effeithlonrwydd sefydliadol. Mae'r amserlen isod wedi cael ei chymhwyso i amcangyfrif y buddion economaidd a gynhyrchwyd gan y Rhaglen hyd yma. Mae hyn yn adlewyrchu pryd y rhoddwyd pob gwasanaeth ar waith ac felly pryd y dechreuodd y buddion gronni.

Tabl A2: Llinell amser fesul gwasanaeth

²⁸ Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol o hawl diodefwyr i ofyn am adolygiad (mae hwn hefyd yn un o nodau'r Rhaglen) yn creu cost ychwanegol i Wasanaeth Erlyn y Goron i ymateb i'r ceisiadau hyn ac mae'n cael ei gyfrif yma fel anfantais.

Gwasanaeth y Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr	Man cychwyn gweithredu'r rhaglen	Nifer y misoedd yn 2024/25	Nifer y misoedd yn 2025/26
Gwasanaeth Cyffredinol	Rhagfyr 2024	4	10
Gwasanaeth Ychwanegol	Ebrill 2025	0	10
RASSO	Medi 2024	6	10

Ar sail y data llywodraethu a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron, rhwng mis Gorffennaf 2025 a mis Ionawr 2026, roedd Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol wedi cyfathrebu â 3,303 o ddioddefwyr. Er mwyn amcangyfrif cyfanswm nifer y dioddefwyr y cyfathrebwyd â nhw ers gweithredu Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol, defnyddiwyd y cyfrif a gofnodwyd ar gyfer mis cyntaf Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol (361 o ddioddefwyr) fel ffigur dirprwyol ar gyfer pob mis cyn mis Gorffennaf 2025, yn ôl i ddechrau'r cyfnod gweithredu. Mae cyfuno'r data a welwyd â'r amcangyfrifon hyn yn rhoi amcangyfrif o gyfanswm nifer y dioddefwyr y mae Peilot y Gwasanaeth Cyffredinol wedi cyfathrebu â nhw ers ei weithredu. Defnyddiwyd yr un dull gyda Pheilol y Gwasanaeth Ychwanegol.

Cynhaliodd y Gwasanaeth Ychwanegol (RASSO) gyfarfodydd cyn-treial gyda 1,802 o ddioddefwyr rhwng amser dechrau gweithredu'r rhaglen ac Ionawr 2026. Ar gyfer y cyfnod rhwng gweithredu a mis Mawrth 2025, defnyddiwyd ffigurau dirprwyol ar gyfer ymgysylltu gan nad oedd dadansoddiadau manwl o'r data ar gael. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Ionawr 2026, defnyddiwyd data llywodraethu a gasglwyd gan y timau.

Tabl A3. Amcangyfrif o nifer y dioddefwyr y mae pob gwasanaeth wedi cysylltu'n llwyddiannus â nhw ers gweithredu'r rhaglen

	Nifer y dioddefwyr a gofnodwyd	Y cyfrif a gofnodwyd ar gyfer y mis cyntaf	Amcangyfrif o nifer y dioddefwyr ym Mlwyddyn Ariannol 2024/25	Amcangyfrif o nifer y dioddefwyr rhwng Ebrill 2025 ac Ionawr 2026
Gwasanaeth Cyffredinol	3,303 (Gorffennaf 2025 - Ionawr 2026)	361 (Gorffennaf 2025)	1,440 (Rhagfyr 2024 - Mawrth 2025)	4,383
Gwasanaeth Ychwanegol	3,608 (Mehefin 2025 - Ionawr 2026)	212 (Mehefin 2025)	0	4,032
RASSO	1,802 (Medi 2024 - Ionawr 2026)	Amh	400 (Medi 2024 - Mawrth 2025)	1,402

Gan ddefnyddio'r amserlen hon, ar ôl addasu ar gyfer tuedd optimistiaeth, chwyddiant a disgowntio, amcangyfrifwyd bod cyfanswm y buddion economaidd, disgowntiedig, gwirioneddol yn £119.7

miliwn. Mae hwn yn adlewyrchu'r buddion ariannol a gynhyrchwyd dros y cyfnod gwerthuso. Gelwir hyn hefyd yn Werth Presennol y Buddion.

Tabl A4: Buddion y Rhaglen lawn yn ôl blwyddyn ariannol a budd

Budd ariannol	2024/25	2025/26*	Cyfanswm
Effeithlonrwydd	£25K	£0.128M	£153K
Canlyniadau Dioddefwyr	£29.2M	£124.8M	£154.0M
Cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr	£36K	£92K	£128K
Cyfanswm y Buddion Enwol	£29.3M	£125.1M	£154.3M
Costau economaidd, disgowntiedig gwirioneddol (prisiau 2025/26)	£23.9M	£95.9M	£119.7M

***Mae ffigurau 2025/26 yn seiliedig ar Ebrill 2025 hyd at ddiwedd Ionawr 2026**

Tabl A5: Gwerth Presennol Buddion y Rhaglen lawn yn ôl blwyddyn ariannol a budd (prisiau 2025/26)

Budd ariannol	Buddion economaidd, disgowntiedig gwirioneddol		
	2024/25	2025/26*	Cyfanswm
Effeithlonrwydd	£20K	£98K	£0.1M
Canlyniadau Dioddefwyr	£23.8M	£95.7M	£119.5M
Cyfraddau tynnu'n ôl ymysg dioddefwyr	£29K	£71K	£0.1M
Cyfanswm Gwerth Presennol y Buddion	£23.8M	£95.9M	£119.7M

***Mae ffigurau 2025/26 yn seiliedig ar Ebrill 2025 hyd at ddiwedd Ionawr 2026**

A1c. Asesiad o ddadansoddiad cost a budd y rhaglen lawn

Mae Tabl A6 yn cyflwyno canlyniadau'r Dadansoddiad Cost a Budd ar gyfer y Rhaglen lawn, wedi'u mynegi ym mhrisiau 2025/26. Mae'r dadansoddiad yn cymharu Gwerth Presennol y Buddion o'r asesiad o ddadansoddiad cost a budd y rhaglen lawn (prisiau 2025/26) a gynhyrchwyd gan y Rhaglen o'i chymharu â Gwerth Presennol y Costau sy'n gysylltiedig â'i sefydlu a'i darparu. Amcangyfrifir bod y Rhaglen yn cynhyrchu gwerth presennol net o rhwng £63.0 miliwn a £132.9 miliwn, a dyma yw'r buddion economaidd net ar ôl bwrw cyfrif o gostau'r rhaglen.

Amcangyfrifir y saif y Gymhareb Cost a Budd gyfatebol rhwng 3.7 a 6.6. Mae hyn yn dangos, am bob £1 a fuddsoddir yn y Rhaglen, y disgwylir y bydd rhwng £3.7 a £6.6 o fuddion economaidd yn cael eu cynhyrchu.

Drwyddi draw, mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod disgwyl i'r Rhaglen ddarparu gwerth da am arian.

Tabl A6: Asesiad o ddadansoddiad cost a budd y rhaglen lawn (prisiau 2025/26)

Gwerth Presennol y Buddion	£119.7M
Gwerth Presennol y Costau	£23.7M
Gwerth presennol net (Gwerth Presennol y Buddion – Gwerth Presennol y Costau)	£63.0M a £132.9M
Gymhareb Cost a Budd (Gwerth Presennol y Buddion / Gwerth Presennol y Costau)	3.7 - 6.6

Mae'r Dadansoddiad cost a budd hwn o'r rhaglen lawn yn rhoi syniad o werth am arian y Rhaglen yn seiliedig ar y costau a'r buddion a wireddwyd hyd yma. Dylid dehongli'r canlyniadau'n ofalus wrth ystyried unrhyw estyniad i'r Rhaglen yn y dyfodol, gan fod y dadansoddiad yn cynnwys costau gweithredu ymlaen llaw a wynebwyd wrth sefydlu'r Rhaglen yn y lle cyntaf. Mae'r rhain yn cynrychioli costau suddedig²⁹ na fyddai disgwyl iddynt godi eto pe bai'r Rhaglen yn parhau, ac *na ddylent effeithio ar benderfyniadau ynghylch beth i'w wneud nesaf* yn unol â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd³⁰. Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd blynyddol, sy'n rhoi syniad mwy priodol o werth am arian parhaus y rhaglen, yn cael ei gyflwyno yn y crynodeb.

²⁹ Costau sydd eisoes wedi'u hysgwyddo ac na ellir eu newid yw costau suddedig.

³⁰ Trysorlys EF (2026). The Green Book UK Government Guidance on Appraisal. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/698dbcd17da91680ad7f4308/The_Green_Book_2026.pdf.

Rhestr o dermau a byrfoddau

Mae'r byrfoddau canlynol yn cael eu defnyddio'n aml yn yr adroddiad. Cyfeiriwch at yr eirfa hon yn ôl yr angen.

BFA	Busnes fel arfer	RASSO	Trais rhywiol a throsteddau rhywiol difrifol
DCB	Dadansoddiad cost a budd	TTR	Cofnodi Amser Tasgau
SCT	System cyfiawnder troseddol	CRD	Canolfan Ragoriaeth i Ddioddefwyr
GEG	Gwasanaeth Erlyn y Goron	VCL	(Cynllun) Cysylltu a Chyfathrebu â Dioddefwyr
CSEW	Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr	RhCD	Rheolwr Cyswllt Dioddefwyr
PiG	Penderfyniad i Gyhuddo	SCD	Swyddog Cyswllt Dioddefwyr
CC	Cwestiynau cyffredin	UGD	Uned Gyswllt i Ddioddefwyr
GBC	Gwariant Blyneddol Cyffredinol	DPD	Datganiad Personol y Dioddefwr
CDG	Cynnyrch Domestig Gros	HDA	Hawl Dioddefwyr i Adolygiad
HMCPSI	Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Fawrhdy	RhGD	Rheolwr Gwasanaethau i Ddioddefwyr
ISVA / IDVA	Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol / Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig	VTP	Rhaglen Drawsnewid i Ddioddefwyr
DCP	Dim Camau Pellach	SGD	Swyddog Gofal i Dystion
GPN	Gwerth Presennol Net	UGD	Uned Gofal i Dystion
SHC	Swyddog Heddlu Cyfrifol, neu Swyddog yr Achos	WELLBY	Blwyddyn Fwyd a Addaswyd yn ôl Llesiant
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	PiD	Parodrwydd i Dalu
PMoC	Y Dull Gorau o Gysylltu â Chi		
GPB	Gwerth Presennol y Buddion		
GPC	Gwerth Presennol y Costau		